

GLYN, JOHN. IPM0060.

‘I BA RADDAU Y MAE GWEAD ‘PSYCHE’ HUNANIAETHOL Y CYMRY YN  
BRAWF O’U ‘COLONEIDDIAD’?’

*‘COLONIZATION IS FIRST OF ALL A MATTER OF CONCIOUSNESS AND NEEDS  
TO BE DEFEATED ULTIMATELY IN THE MINDS OF MEN’.* (Nandy.1983:6)

CRYNHODEB.

Dosrennir y dilyniant dadleuon yn yr ymdriniaeth hon, yn dair pennod, gyda'r cynnwys fel a ganlyn-

1. Amlinelliad o'r dealltwriaethau traddodiadol o ystyr 'trefedigaethu'. Y modd y syrthia Cymru yn fyr o'r nodau cydnabyddedig; ond, ei bod yn bosibl ei hystyried yn cyfarfod y gofynion diffiniadol mewn cyfnod cynharach. Archwiliad o'r modd y gall rhai elfennau o'r profiad cynharach hwn, ynghyd ag ymestyniad elfennau eraill tu draw i 1536, fod yn gyfrifol am barhad y profiad coloneiddiol ehangach yn y cyd destun Cymreig.
2. Arolwg dethol o rhai ffenomenau yn y 'psyche' a gydnabyddir yn brofion coloneiddiad, ynghyd a thystiolaeth o'u hamlygiad mewn llenyddiaeth a sylwebaeth cyffredinol.
3. Crynhoad o'r dadleuon o blaid ein thesis. Gwyntylliad o'r gwrthddadleuon cyfredol yn erbyn cymhwyso'r ddamcaniaeth olgoloneiddiol yng nghyswllt Cymru. Ymatebiad ar ffurf tystiolaeth bellach o realiti rhwygiadol y profiad Cymreig; ond, asesiad hefyd o fuddioldeb ac ymarferoldeb ymdrechion i ganfod tir cyffredin ar lwybrau mwy cyfannol.

Diweddir ein hysgrif gydag ymgais i ddistyllu eto hanfod ein ymholiad gwreiddiol, ynghyd a chynnig ein hatebiad terfynol iddo.

CYFLWYNIAD.

Gan na fu Cymru erioed yn drefedigaeth yn yr ystyr glasurol, yn draddodiadol ni thybiwyd y ceid ynddi fawr felly o'r gwasgfeuon a gysylltir yn arferol a'r profiad coloneiddiol. Y mae'r traethawd hwn yn ymgais i brofi yn wahanol.

Gydag ymddangosiad y ddamcaniaeth olgoloneiddiol yn yr academi yr hyn a gaed ydoedd cyfle i wneud asesiad cwbl newydd a gwahanol o'r fframweithiau hanesyddol a'r dadansoddiadau cymdeithasegol blaenorol. Gwelwyd y profiad coloneiddiol bellach fel llawer mwy na chasgliadau o drefniadaethau cyfansoddiadol annymunol; ond yn hytrach, lawn mor arwyddocaol, fel patrymau cymhleth o gyd berthynas rhwng gwahanol actorion yn eu hymgiprys a'u gilydd am rym. Canfyddid yr ymrafael hwn yn digwydd, nid dim ond ar y gwastad gwleidyddol, economaidd, neu filitaraidd, ond hefyd ar y lefel ddiwylliannol, meddyliol, a seicolegol. Ymhellach hefyd, ac yn bwysig iawn, fe'i canfyddid fel rhywbeth nad sydd wedi ei gyfyngu i amseryddiaeth cyfnod 'swyddogol' y trefedigaethiad, ond yn hytrach fod effeithiau'r profiadau coloneiddiol yn hirhoedlog, a'u hagweddau niweidiol yn anodd iawn i'w gwyrddroi. Mae Ashis Nandy yn ei gyflwyniad i'w lyfr *'The Intimate Enemy: The Loss and Recovery of Self Under Colonialism'* yn dwyn allan y wedd ehangach, ymestynnol hon, sydd i'r persbectif newydd yn ardderchog iawn. Yng nghyswllt yr India mae'n gofyn pa bryd y bu'r gwir goloneiddio, ac yn ateb?

*'For parts of the book, therefore, colonialism in India began in 1757, when the battle of Plessey was lost by the Indians, and it ended in 1947, when the British formally withdrew from the country; for other parts of the book, colonialism began in the late 1820s when policies congruent with a colonial theory of culture were first implemented and ended in the 1930s when Gandhi broke the back of the theory; for still other parts of the book colonialism*

*began in 1947, when the outer supports to the colonial culture ended, and resistance to it is still continuing'. (Nandy.1983:xvi)*

Yn ychwanegol at y golygiad ehangach, yr hyn rydd y ddamcaniaeth olgoloneiddiol i ni yn ogystal yw'r arfau cysyniadol i ymgymryd a'r dadansoddi, ynghyd hefyd a'i nodau casgliadol cydnabyddedig-

*'What postcolonialism offers, in addition to a collection of complex theoretical tools, is a network of thematic concerns to which postcolonial writers return again and again. These are often bound up with specific anti-colonial struggles, the articulation of structures of domination (internal and external)..the decolonization of the mind (to use Ngugi's phrase)'. (Bohata.2004:1,2)*

(Bohata.2004:1,2)

Yn y traethawd hwn byddwn yn archwilio rhai o'r themâu hyn. Yn benodol, fe fyddwn yn ceisio asesu i ba raddau y mae'r 'nodau coloneiddiad', a gydnabyddir ac arloeswyd gan ladmeryddion y ddamcaniaeth olgoloneiddiol, i'w canfod yn 'psyche' y Cymry, a thrwy hynny yn estyn prawf gwahanol, ond diymwad er hynny o'u 'coloneiddiad' .

Y mae'r persbectif yn un cyffrous, yn llawer mwy cynhyrchiol, dybiem ni, nag amryw un blaenorol; yn sicr y mae'n fwy dadleuol. Fe'n harbedir ni rhag cloffni y gors gronolegol, gan agor y ffordd gogyfer ag ail asesiad ffres o'r stori Gymreig.

Darganfyddwn fod amseriad, a phatrwm 'y profiad coloneiddiol Cymreig' wedi bod yn dra anarferol, a'i 'ddiwedd swyddogol' wedi digwydd amser maith yn ôl; ond ni thanseilia hynny ein dadl; oherwydd holl faentumiad 'olgoloneiddiaeth', fel ac y'i ceir yn yr idiom theoretig cyfoes, yw'r ddealltwriaeth honno a ddeil fod effeithiau a chreithiau dyfnion y profiad coloneiddiol yn parhau ymhell ar ôl diddymiad

ymerodraeth, neu fel yn achos Cymru, ymgorfforiad. Y cwestiwn allweddol felly yw; nid a yw, neu a fu, neu ym mha fodd y bu Cymru yn drefedigaeth, y cwestiwn allweddol yw a yw Cymru heddiw yn arddangos elfennau ‘olgoneiddiol’? Os ydyw, daw hyn yn fwy fwy problematig i ladmeryddion y dehongliadau traddodiadol. Os ydyw, fe brofir yn ddigamsyniol i Gymru fod felly un amser yn fath ar ‘drefedigaeth’. Pa bryd? Pa wahaniaeth? Fe’n harbedir rhag dilyn dim mwy ar y drafodaeth gymharol ddiffwrwyth honno, ac fe’n tywysir i borfeydd problemus, ond llawer iawn brasach, a mwy diddorol, y Gymru gynhyrfus gymhleth bresennol!

Cyn dod i’r man hwnnw fodd bynnag, ac er mwyn medru gwir fesur rhagoriaeth y golygiad olgoneiddiol, y mae yn dal yn ofynnol i ni yn gyntaf osod ein hymchwiliad yng nghyd destun rhai o’r trafodaethau blaenorol a gaed am statws drefedigaethol Cymru, ynghyd a cheisio asesiad o gryfderau a gwendidau’r dadleuon rheini o’r ddeutu.

PENNOD UN.

CYFYNGIADAU A CHYFLAWNIADAU CYFFREDINOL.



Yn ddi-os y mae unrhyw ymgais i osod Cymru o fewn fframwaith drefedigaethol draddodiadol yn mynd i fod yn broblematic. Pa bynnag batrwm diffiniol cydnabyddedig ddewisir gennym yn ddi-feth fe syrthir yn fyr o'r nod. Pan geisir nodau ar gyfer Cymru oddi fewn i fodel 'coloneiddiol' arferol ni welir ond-

## 1) ARWYDDION ANNIGONOL.

Yn ogystal a'r disgwyliad fod trefedigaethu yn mynd law yn llaw ag ymerodraeth, ac felly yn glasurol yn perthyn i'r cyfnod modern, ymddengys fod y Gymru ddiweddar o leiaf, yn cael ei hallgau hefyd ar dir pob diffiniad theoretig technegol. Oherwydd-

*'For true colonialism to exist two conditions are necessary. The land held as a colony must have no real political independence from the 'mother country', but also the relationship must be one of forthright exploitation'.*

(Robertson.2002:89)

Tra nad oes mae'n siŵr fyth enghreifftiau cyfan gwbl 'bur' o drefedigaethu yn digwydd yn union yn ôl y diffiniad uchod, y mae dal yn lled amlwg na fu Gymru gyfarfod gofynion y proffil hwn, o leiaf felly ddim yn y cyfnod modern.

Aflwyddiannus o ganlyniad fu'r ymdrechion i'w diffinio hi felly. Fe gofir yn arbennig efallai am ymdrech lew cyfrol Michael Hechter yn y saithdegau, a groesawyd gan 'genedlaetholwyr Celtaidd', ond a ddiystyrwyd ac ddifriwyd gan academyddion am ei diffygion theoretig a methodolegol, ac hefyd am nad ydoedd yn cyfateb i realiti profiadol y Cymry eu hunain. (Hechter.1975). Diddorol yw sylwi fel yr ymgeisia rhai sylwebyddion cyfoes seilio eu hymwrthodiad hwythau o'r idiom olgoneiddiol ar dir tebyg- *'the code breaker this time around is not 'internal colonialism', but post-colonialism'*. (Smith.2004:23). A orfyddant? Amser a ddengys, oherwydd nid yw'r

drafodaeth eto ar ben. Ond os yn y blynyddoedd nesaf hyn y profa ymchwil mwy trwyadl i thesis sylfaenol y traethawd hwn ei fod yn gywir, yna ni all na orfodir ar amryw i ail asesu eu golygiadau. Gyda golwg ar Hechter ei hun fodd bynnag ni lwyddodd dadleuon ‘y drefedigaeth fewnol’ i argyhoeddi. Erys cwestiynau ynghylch derbynoldeb a chyfreithlondeb esgeulustra goddefol o’r cyrion pan fo’r cyrion rheini yn digwydd bod yn rhan o wlad rhywyn arall. Serch hyn, ni thybir fod thesis ganolog y llyfr, sef bod anwastadedd economaidd yn y gwledydd Celtaidd yn ganlyniad gwahaniaethiad llafur diwylliannol, yn gywir. Cydnabyddir ei gyfraniad yn gosod astudio Cymru yn flaenllaw yn y sffêr rhyngwladol, ac y mae ei ble dros gydnabod yr endid Cymreig a’i ddiwylliant yn aros ar yr un pryd yn gymwynas ac yn ddadleuol. Eto y wedd ecsbloetiol sydd fwyaf ar goll. Y mae’r beirniaid yn llw, ac y maent yn hallt-

*‘The advocates of the internal colony model in Wales use the term ‘exploitation’ with little precision and heavy abandon’.* (Lovering.1978:57)

Er y defnydd ffri ac amhriodol o’r gair-

*‘..material standards of living in absolute terms place them’, (y Cymry), ‘among the world’s privileged minority, so much so that it almost indecent to make an equation with the third world’.* (Day.1978:102)

Tra na fyddid fyth yn dymuno gwadu hanfod eu dadl, y mae hon yn thema gyffredin a dadlennol yn ei defnydd gwleidyddol; sef bod meiddio awgrymu’r gyffelybiaeth gyda’r trefedigaethau yn ymylu ar y di-chwaeth, ‘*potentially offensive*’; anniolchgar hyd yn oed efallai. (Williams, C.2005:10) Onid llawer gwell ydyw cofleidio’r naratif gadarnhaol am gyfranogiad manteisiol, ac eiddgar hefyd, y Cymry yn y prosiect Prydeinig drwyddo draw? Ar drothwy’r cyfnod modern nodi’r yr olygfa-

*'Welsh intellectuals concentrated in such force around the Queen's immediate entourage and behind the first thrust for naval growth and American colonization'. (Williams, G.A.1982:19)*

Mae Thompson yn synhwyro peth hwyrfydedd ar ran y Cymry o'u cymharu a'r Albanwyr a'r Gwyddelod ar rhai adegau. Hyd yn oed yn anterth yr Ymerodraeth-

*'The Welsh were somewhat more reticent- part of the purpose of the 1911 investiture..was to encourage them to take their full part in the British imperial enterprise. That said, the Welsh ..were deeply involved in establishing the gold fields of Australia, the peopling of Patagonia...pride in the Empire helped the British people to transcend their internal divisions.. the Empire's prestige and profits accrued to them all'.*

(Thompson.2005:198,179,197)

Tra y maddeuir iddo ei ychydig ddryswch parthed cymhellion arloeswyr cynnar y Wladfa, pwy all wadu nad yw sylwedd asesiad Thompson yn agos iawn ati? Yn yr union gywair hwn hefyd felly y cyflwynwyd bendithion yr Uniad, a gychwynnodd gyda'r Tuduriaid, i beth wmbredd o fyfyrwyr chweched dosbarth Cymru drwy gydol 50au a 60au'r ganrif ddiwethaf. Gyda choegni nodweddiadol mae Gwyn Alf Williams yn crynhoi y gymwynas fawr-

*'The Tudor century..liberated the Welsh, introduced them as junior partners into the Merchant capitalism of the sixteenth century, at the price of the expulsion of their language from state and official life'.*

(Williams,G.A.1982:18)

Y mae'r fargen wrth gwrs, o ystyried cymaint yr enillion a gaed, wedi ymddangos yn fargen ardderchog am amser hir. Golygai'r Deddfau Uno fod y Cymry o'r diwedd yn cael ymuno yn y Clwb; heb neb yn cofio bellach; nac yn malio chwaith, sut y bu

iddynt weld nacau eu mynediad yn y lle cyntaf, ac felly pawb mor fythol ddiolchgar am y fraint o gael ail ymuno yn ôl y telerau newydd. Ac felly yr adroddid y stori; ymron pob hual a llyffethair wedi eu bwrw ymaith yn swyddogol ac amseryddol dwt wedi 1536, a pharhad unrhyw amryfusedd ar ôl y cefnddwr hwn, naill ai yn ‘fyth’, neu yn gallu cael ei esbonio yn nhermau esgeulustod ddidda diddrwg anfwriadol, ac felly yn anatebol. O’r dyddiad hwn ymlaen chwilota yn ofer a wneid mwyach am unrhyw gamwri –

*‘On the contrary...separatist sentiment in Wales in the nineteenth century was killed by kindness’.* (Williams. C.2005:6)

Dychwelwn at rai o’r golygiadau hyn cyn y diwedd. Edrychwn nesaf fodd bynnag ar y modd y gorfodwyd peth amodi ar y naratif simplistig hon, nid dim ond gan yr her olgoloneiddiol, ond hefyd gan y goleuni sylweddol a daflwyd yn y blynyddoedd ddiweddar hyn ar un cyfnod a oedd yn ddiamheuol lawer llai ‘caredig’ tuag at y Cymry, a’u cenedl.

## 2) ANOMILI ARBENNIG.

Er felly fod Cymru yn arddangos ‘Arwyddion Annigonol’ cyn belled ag y mae’r model trefedigaethol disgwyladwy yn y cwestiwn, yn arbennig gyda golwg ar y wedd economaidd, ynghyd a mesur dyfnder y difreinio; serch hyn y mae peth ildio bellach wedi gorfod digwydd i gydnabod rhai agweddau ‘coloneiddiol’ yn y stori lawnach Gymreig. Tra y pery’r consensws ynglŷn ag amhriodoldeb chwenychu’r model diweddarach, deil yr Athro R.R. Davies, yn ei lyfr, *‘The First English Empire-Power and Identities in the British Isles 1093-1343’*, fod elfennau clasurol coloneiddiad i’w

gweld ar waith yng Nghymru, nid yn unol a'r patrwm amseryddol arferol, ond yn hytrach mewn cyfnod llawer cynharach. Anomili amseryddol arbennig neu beidio, rhwng y blynyddoedd 1100-1300, y mae Davies yn gweld ymdrechion tra penderfynol, ond ysbeidiol, i drefedigaethu rhai rhannau o Gymru sydd yn gwbl gydnaws gydag unrhyw ddiffiniad modern a geir o'r broses goloneiddiol. Yn y cyfnod hwn meddai-

*'English domination in the British Isles beyond England...created communities which were self consciously and aggressively English, but were not of England itself. The consequences...were profound. Englishness...was an exportable commodity within the British Isles. This was not true elsewhere in the Angevin Empire'. (Davies.2000:18-19)*

Ni eill y sylwebyddion ond ymostwng i drylwyredd y dystiolaeth a gasglwyd. Dywed Neil Evans wrth gydnabod gwaith cynharach yr Athro Davies-

*'This colonialism was based on rule by an alien culture, a system of one law for the Welsh and another for the English, which is described as 'apartheid',...centrally as involving a process of colonization....It was not dynastic conquest so much as racial...Harsh discriminatory legislation against the Welsh'. (Evans.1991:239,241)*

Ymresyma Davies ymhellach mai y coloneiddio hwn yn anad dim arall; fwy o lawer na'r cyrhoedd milwrol, neu'r cestyll, neu'r gorchmynion brenhinol, oedd bennaf gyfrifol am ddwyn y cyrion pellennig o fewn cylch dylanwad arhosol y grymoedd diwylliannol, gwleidyddol ac economaidd Seisnig yn ynsoedd Prydain.

(Davies.2000:179) Oherwydd er i'r ymdrechion penodol coloneiddiol ei hunain ballu tua diwedd drydedd ganrif ar ddeg, yr oedd eu heffaith yn bellgyrhaeddol, ac i bob pwrpas yn annileadwy. Gadawyd eu hôl yn amlwg ac yn lleol iawn mewn mannau

megis Gwyr a Phenfro, tra yn y profiad Cymreig yn gyffredinol ymestynnwyd ac ail ategwyd y canfyddiad o'r coloneiddiad hwn amryw o weithiau yn y canrifoedd dilynol, fwyaf nodedig efallai yng nghyfnod Glyndŵr.

A beth felly oedd natur y Gwahaniaethiad (*Difference*) a grëwyd?-

*'They built up cultural, political, and economic connections which bound these Anglicised worlds they had founded in Wales and Ireland to England itself. And those worlds were, and remained, worlds apart'. (Davies.2000:154)*

Cymaint y gagendor, ond am ba hyd tybed y byddai'r bydoedd hyn barhau felly? Ac ai afresymol llwyr ydyw yn awr ni ddechrau ymholi ynghylch effeithiad hyn oll ar y gwedd hunaniaethol dyfnach dros gyfnod hirach na'r cyfnod dynodedig coloneiddiol ei hunan, pa bryd bynnag y cytunir y digwyddodd hwnnw? Tra ei bod yn sicr yn wir fod rhai o'r trefi garsiwn Seisnig wedi ei hadfeddiannu yn y diwedd gan y Cymry, nid mor rhwydd yr adfeddiannir yr hyn a erydwyd neu a ail lunier ar wastad y meddwl-

*'By defining itself so securely on its own terms, it excluded the rest of the British Isles from inclusion within it. This rest- Wales, Scotland and Ireland- was the Other'. (Davies. 2001:4)*

Cymhlethir, ac yn wir fe grëir y 'broblem', yn y diwedd un, eto medd Davies, gan anghyflawnder y broses goloneiddiol ei hunan. Gwastrodwyd llawer ar fuddiannau pobloedd eraill yr Ynysoedd hyn yn ystod 'oes orchestol y Saeson', ond nid yn llwyr. Fe'i dilynwyd gan ganrif Dafydd ap Gwilym, ac yn y gwledydd Celtaidd eraill, gan ganrif o adfywiad diwylliannol cyffredinol ymysg y-

*'shifting, multilayered, and complex cultural worlds of the British Isles of the fourteenth century'. (Davies.2000:182)*

Ni lwyddwyd i lwyr gymhathu; yn rhannol, fel ymhob cyd destun trefedigaethol, oherwydd agwedd y coloneiddiwr ei hunan tuag at y brodor. O bersbectif y

bedwaredd ganrif ar ddeg yn sicr, byddai yn rhaid i'r 'polisi Cymreig' ( yr ymgorfforiad Tuduraidd ), aros am sbel eto cyn cael ei fentro, am y rheswm-

*'In the fourteenth century.. English settlers beyond England found it difficult, indeed well nigh impossible, to come to a meaningful, sustained, and non-discriminatory relationship with the other peoples and parts of the British Isles'. (Davies.2000:199)*

Fe'n temtir i ofyn tybed nad dyma'r llyffethair gwaelodol ar ddatblygiad llwyddiannus hunaniaeth Brydeinig erioed? Ond boed hynny am a fo, y mae'r methiant cymhathiadol wedi gadael i ni ei gymynrodd-

*'The English empire of the British Isles was an aggregation of... peoples. It was not a united kingdom, either in pretension or reality. That was the legacy that the advance of English power in the British Isles in the twelfth and thirteenth centuries had left as a bequest for future generations'.*  
(Davies.2000:203)

Ymhellach yn wir, yr hyn faentumiwn ni yn y traethawd hwn yw fod yr holltau a'r clwyfau canlyniadol a ddeilliai o'r cyfnod coloneiddiol hwn yn rhai llawer dyfnach nac y gellid wedyn eu cyfannu yn ddisymwth gan ddeddfwriaeth gwladwriaethol yn unig. Yn hytrach, ei bod yn gwbl briodol i ni yn awr edrych am eu heffeithiau ymhell tu draw i 1536, a pharhau i ganfod yno, yr-

### 3) ARGRAFFIADAU ARHOSOL.

Yn sylfaenol o hyd i'n hymresymiad ni fe geir y gofyniad a ydyw hanesyddoldeb y profiad coloneiddiol wir yn dod i ben ddiwrnod annibyniaeth y drefedigaeth, neu fel yn achos Cymru, ddydd ei hymgorfforiad? Y mae Richard Wyn Jones wedi tynnu ein

sylw ni at yr ymgais wnaed i ymgorffori Algeria yn rhan o Ffrainc fetropolitan.  
(Jones, R.W.2005:23) Nid yw Cymru felly yn peidio cyfrannu o'r profiad  
coloneiddiol yn unig felly ar sail y math o setliad cyfansoddiadol a orfodwyd arni.  
Pwysicach fyth yw atgoffa ein hunain eto o hanfod y ddamcaniaeth olgoloneiddiol; y  
thesis amlwg ddilys honno a'n galluoga i weld a deall, er enghraifft eto yn yr India-

*'Where thirty five years after the formal ending of the Raj, the ideology of  
colonialism is still triumphant in many sectors of life'.* (Nandy.1983:2)

Yn yr un modd, pa mor *'just and righteous'*, a buddiol bynnag yr ystyrid fod yr  
*'incorporation'* wedi bod yn natblygiad gwleidyddol Cymru, ai annisgwyl fyddid pe  
doid o hyd i batrymau tebyg o barhad yn ei phrofiad hithau? (Bowen.1908:75)

A beidiodd yr Aralleiddio (*Othering*) wedi'r Uno? Mae'r enghreifftiau cynnar o'r  
nodwedd coloneiddiol hwn yn rhai diddorol a dadlennol. Y Cymry, y *'Wealhas'*  
(estron), wedi'r cyfan oedd yr 'arall' gwreiddiol cyntaf un. (Williams, G.A.1982:192)  
Erbyn y goncwest yr oedd y grefft o ddefnyddio dulliau darostyngol difriol seicolegol  
wedi eu perffeithio, nid lleiaf gan y meistr strategaethol mawr ei hun, Edward y  
cyntaf-

*'As for the natives themselves, they were now second class citizens in their  
own country..Worst of all perhaps, in the mind of the conquerors they were  
doomed to a kind of patronized quaintness- permitted to retain (for the  
entertainment of their colonial overlords) their quaint blind harpists, bards  
and choirs. As for those who wanted to do something more serious with their  
lives and get aboard the Plantagenet gravy train, Edward's army awaited'.*  
(Schama.2000:196)

Y mae'r ddeinameg ddeuoliaethol gyfarwydd yn ei lle yn fuan iawn. Ond, wedi'r  
Uno, patrymau cymelliadol ac ymddygiadol yw y rhain y dylent yn awr felly, yn ôl



rhai, fod wedi dod i ben. Mae Chris Williams yn seilio peth o'i wrthwynebiad i gymhwysiad eang o'r ddamcaniaeth olgoloneiddiol yng Nghymru ar y rhagdybiaeth mai ar dir diwylliannol yn unig bellach y byddid yn gweld unrhyw Wahaniaethu (*Discrimination*) yn parhau, a hynny yn anfwriadol, damweiniol ac achlysurol, os o gwbl. Fe ddylid gwrthbwysu bob amser hadau unrhyw niwed a achoswyd gan eithriad yr 'imperialaeth ddiwylliannol' hon, ochr yn ochr a pharodrwydd y wladwriaeth Elisabethaidd i ganiatáu cyfieithu'r Beibl a sicrhodd safoni a pharhad ieithyddol. (Williams, C.2005:5) Cyfeirir at gyfrol Howe, sydd yn ein rhybuddio rhag peryglon seilio –'general claims about colonial mentalities on a single text'. (Howe yn Williams, C.2005:6) Y testun 'unigryw' gyfeirir ato yw adroddiad comisiynwyr addysg 1847, a adnabyddir bellach fel 'Brad y Llyfrau Gleision'. Mae'n wir nas gweithredwyd ar argymhellion yr adroddiad; ond, erys y cwestiwn, pa un ai dogfen digon dinod ei dylanwad ydyw i'w diystyru, yn fater dadleuol hyd y dydd heddiw. Am amlinelliad o ieithwedd a gogwydd gwahaniaethol helaeth y ddogfen honno, edrycher gwaith Gwyneth Roberts, 'The Language of the Blue Books: The Perfect Instrument of Empire'. (Roberts.1998) Ond y mae Williams yn anghywir hefyd yn ngwreiddyn ei ddadl, oherwydd nid ambell i esiampl o aralleiddio y Cymry a geir yn y cyfnod modern; y maent yn niferus, ac y maent yn amrywiol hefyd yn eu cynnwys. Am flas enghreifftiol o rai ohonynt gweler cyfrol Meic Stephens, 'A Most Peculiar People: Quotations About Wales and the Welsh'. (Stephens.1992) Nid diwylliannol yn unig chwaith ydynt yn eu cwmpas. Ceir enghreifftiau sydd yn gosod y Cymry yn yr un fframweithiau cysyniadol a chategoriol yn union a brodorion trefedigaethau'r Ymerodraeth yn ei hanterth; ynghyd a'r tadogiadau ensyniol hiliol nodweddiadol o'r cyfnod-

*'The usefulness of the concept of race in both establishing the innate superiority of imperial culture as it approached its zenith, and at the same time lumping together the 'inferior' races under its control can be seen in the example of English commentary on the 'races' of Britain itself. By 1885, John Beddoe, president of the Anthropological Institute, had developed an 'index of Nigrescence' that showed that the people of Wales, Scotland, Cornwall and Ireland to be racially separate from the British. More specifically he argued, that those from Western Ireland and Wales were 'Africanoid' in their 'jutting jaws' and 'long slitty nostrils', and thus originally immigrants of Africa'.*

(Szwed, J.F. yn Ashcroft, Griffiths, Tiffin.1998:202)

A yw ymgorfforiad a chyfranogiad y Cymry yn yr ymerodraeth yn ei gwarchod rhag gwahaniaethu yn y cyfnod hwn? Ac os nad ydyw, o ble y deillia y tueddiad hwn, a beth yw arwyddocâd ei barhad? Mae'r darlun wrth gwrs yn gymhleth ac yn guddiadol, ond yn amlwg nid yw'r ddeinameg aralleiddiol wedi peidio yn llwyr, yn hytrach-

*'The linking of the Irish and the Welsh with Africa demonstrates remarkably clearly how imperial ideology operates to exclude and marginalise colonized peoples, whether in Britain or..Empire'. (Ashcroft, Griffiths, Tiffin.1998: 203)*

Aralleiddio ac ymyleiddio ydyw, fe ddadleir, ac sydd wedi parhau hefyd mewn gwahanol ffurfiau, i mewn i'r oes bresennol. Gyda datodiad Prydeindod a dyfodiad Datganoli, y mae hyd yn oed, yn ôl rhai sylwebyddion, ar gynnydd-

*'Put crudely, the current political situation has encouraged some English scholars to view the Welsh and Scots as the Other in a more deliberate fashion than before'. (Colley.1992:312)*

Yn y Gymru gyfoes y mae wedi parhau nid dim ond ar ffurf yr enghreifftiau cyson o wawdio poblogaidd a ystyrir yn 'dderbyniol', ond yn fwy arwyddocaol a niweidiol efallai yn yr amharodrwydd cyffredinol i ganiatáu i'r ardaloedd Cymraeg eu hiaith fod yn gymhathiadol, heb i hynny olygu eu bod rhywfodd wedyn yn 'hiliol'. Tra y dymuna cenedlaetholwyr i amlethnigrwydd gael ei ddathlu trwy gyfrwng yr iaith, y mae cyrff cyhoeddus dylanwadol megis y Comisiwn Cydraddoldeb Hil ar adegau wedi bod yn gyndyn i gydsynio i bolisiâu cyflogaeth sy'n gofyn am y Gymraeg fel cymhwyster, am y tybid fod hynny yn gwahaniaethu yn erbyn dinasyddiaeth Brydeinig gyffredin seiliedig ar yr iaith Saesneg. Canlyniad hyn oll meddir yw rhoi-

*'insitutional credance to the idea that language activists were racists'..*  
*'denied...the chance to speak without being mediated through the prism of*  
*racist narrative'.* Such writing about Wales is similar in many ways to how  
*other minority communities have been historically imagined. Said's depiction*  
*in 'Orientalism'.. is not wholly dissimilar to the process by which this*  
*radicalized discourse of Welsh speaking Wales is put together'. (Brooks.*  
*2006:145,150,155)*

Bid hynny am a fo. Gwyddys pa mor chwerw yw'r beio o'r naill du; ond cwestiwn pwysicach ydyw, o ba le y deillia y 'ddychnmygion' hyn, a'u dryswch, yn y lle cyntaf? Beth yw tarddiad gwreiddiol y canfyddiadau cymysglyd hyn ynglŷn a gwerth ei hunaniaeth, ac felly hawliau cyfatebol y Cymro? Pam yr amryfusedd o gwbl, os yw'n wir erbyn yr Uniad fod?-

*'much of the discriminatory legislation had already gone... and the rest would*  
*dissappear within the century', ac yn wir, 'the requirement of speaking*  
*English for officials in the incorporating Acts has to be distinguished from*

*earlier racially- based Acts. The Welsh were not debarred from office, even if monoglot Welsh speakers were*. (Evans.1991:242)

Yn amlwg nid yw Evans wedi oedi i feddwl faint yn union fyddai wedi eu hallgau, oherwydd mae'n ychwanegu-

*'In practice Welsh was to be a language of administration for a century or more because of the impossibility of applying the act of 1536 in a virtually monoglot society*'. (Evans.991:242)

Serch hyn, cilio yn fuan, yn ôl y ddadl hon, fyddai hanes pob rhyw anghyfartaledd ac anghyfiawnder sylfaenol-

*'The implication of all this is that colonial Wales ended with the union...Wales. It was simply a part of the kingdom, in which colonization and conquest had taken place in the remote past, but had now ceased to have any real political significance*'. (Evans.1991:242,243)

Ond sut felly yr eglurir parhad yr aralleiddio? Beth yw'r cyd destun a'i galluoga i ddal i ddigwydd os yw yr holl elfennau gwahaniaethol posibl wedi eu symud gan ddeddfwriaeth 1536 a 1542? Yr unig gymal o hyd lle nas ceid cydraddoldeb yw'r un ieithyddol; yr 'eithriad', y cytunir nas gweithredwyd arno yn llawn yn ei ofynion manwl technegol ar y pryd. Fodd bynnag os y cymerir y gwaharddiad ieithyddol yn ei gwmpas ehangach; yna fe geir wedyn efallai yr allwedd i ddechrau deall ei effeithiad pellgyrhaeddol ar yr holl 'psyche' hunaniaethol Cymreig, ynghyd a'i barhad o'r cyd destun ar gyfer y coloneiddio meddyliol wedi 1536, hyd at y dydd presennol. Yn hyn o beth mae'r lliθοedd cymodlon oll, a ddywed am yr un amryfusedd bach y byddid yn ei ddatrys cyn pen dim o amser, yn colli'r pwynt. Oherwydd yr hyn a wnâi'r ddeddf oedd nid yn gymaint gwneud y Saesneg yn iaith swyddogol, nac ychwaith rwystro'r Cymro uniaith rhag rhoi ei dystiolaeth yn Gymraeg yn y llys, nac hyd yn

oed rwystro swyddog y llys rhag siarad Cymraeg yn ei gartref. Yr hyn a wnâi'r ddeddf ydoedd gwahardd y Gymraeg o fywyd cyhoeddus Cymru, ynghyd a'r oll o'r diraddiad hunaniaethol amlwg a fyddai yn deillio o hynny yng nghanfyddiad ei siaradwyr; ac hefyd yr un mor bwysig a dylanwadol, yng nghanfyddiad eraill o Gymreictod fel rhywbeth a fyddai o ganlyniad yn gynyddol ddiwerth a dirmygedig. Yr hyn wnaed ydoedd cyplysu'r Saesneg a dod ymlaen yn y byd; ac, am fod iaith yn un o'r bathodynau hunaniaethol cryfaf sydd, Cymreictod yn gyffredinol yn y diwedd, gyda chyfyngiad llyffetheiriol. Dygir allan y ddadl gan y Barnwr Dewi Watcyn Powell-

*'Ni adawai'r gyfraith na'i gweinyddwyr le i neb i gredu fod y Gymraeg o unrhyw fantais i'r rheini a oedd a'u bryd ar feddu awdurdod, statws a grym economaidd...Pris dyrchafiad oedd ymwadu a'r iaith Gymraeg'.*

(Powell.1986:289,291)

Atgoffir ni o eiriad gwreiddiol y ddeddf-

*'...henceforth no person or persons that use the Welsh Speech or Language shall have or enjoy any manner Office or Fees within this Realm of England, Wales, or other of the King's Dominions, upon pain of forfeiting the same Offices or Fees, unless he or they use and exercise the English Speech or Language'.* (Bowen.1908:87)

Pwy wŷr gwir fesur dyfnder effeithiad y ddeinameg ddiraddiol hon ar y 'psyche' Cymreig, ond y mae modd dychmygu rhyw gymaint efallai beth fyddai rhai o'r canlyniadau cymelliadol wedi gallu bod yn nhermau yr amgyffredion creiddiol, a chreithiog hefyd, yn y meddwl. Er mai ymadrodd cyfreithiol technegol yw '*upon pain of*', y mae yn briodol ei fod wedi ei gynnwys yn y cymal gwaharddiadol, oherwydd yno, yn yr union fan y'i gosodwyd, y gesyd y pwysau grymusaf un ar ganfyddiad y

Cymro o'i wir berthynas hunaniaethol gyda'r diwylliant dominyddol a'i darostyngodd. Tra y gwnaed hyn oll gan Harri'r wythfed oherwydd ei- '*singular zeal, love and favour towards his subjects of this Dominion of Wales*', purion, yn ôl Emyr Humphreys, fyddai i ni gofio hefyd am brofiad eraill o'i ffafrau-

*'Henry VIII was always a demanding lover. Too often his tender embrace could end in a kiss of death'*. (Bowen.1908:76; Humphreys.2002:110)

Ai gweddilliol, neu absennol bellach felly, yw'r profiad 'coloneiddiol' o'r stori Gymreig? Tra yn sicr byddai yn rhaid cydnabod ei bod yn ymddangos felly gyda golwg ar rhai o'r diffiniadau mwy traddodiadol o'i ystyr; eto, gyda golwg ar ei agweddau mwy diwylliannol a seicolegol, cydnabyddedig bellach yn yr academi; yr hyn a faentumiwn ni yw fod ei effeithiad yn llawer dyfnach, a'i barhad yn llawer yn hwy nac a feddyliwyd yng nghynt. Y mae'r prawf o hynny yn wir i'w weld yn awr nesaf yn yr amlygiadau o'n thesis ni yn y traethawd hwn.

PENNOD DAU.

CYMHWYSO'R CRITIQUE OLGOLONEIDDIOL.

Ar ddechrau pennod newydd priodol ydyw efallai ein bod yn atgoffa ein hunain unwaith yn rhagor o union faes ei hymchwiliad. Dygir i'n sylw eto, gan Nandy, wirionedd gwaelodol i'n golygiad, pan ddywed-

*' a colonial system perpetuates itself by inducing the colonized, through...psychological rewards and punishments, to accept new social norms and cognitive categories. But these outer incentives and disincentives are invariably noticed and challenged..More dangerous and permanent are the inner rewards and punishments, the secondary psychological gains and losses...They are almost always unconscious'.* (Nandy.1993:3)

Cyflwynwn ninnau yn awr ein dadl, gan ganolbwyntio ar astudio'r 'psyche', am y rhydd hynny i ni ddull unigryw; annisgwyl o wrthrychol hefyd efallai, o geisio asesu effeithiau'r gorffennol. Nid yw'n fethodoleg cysáct empeiraidd berffaith, ond y mae yn ddefnyddiol, a thu hwnt o ddadlennol i'r graddau y bydd yn chwilio allan ac adlewyrchu'r nodweddion cydnabyddedig yn y maes- y profion diymwad rheini ac sydd yn dynodi coloneiddiad yn y cymdeithasau ble'u hamlygir.

Byddwn yn edrych ar bump arwyddnod penodedig- Israddoldeb, Dadleoliad, Amwysedd, Efelychiaeth a Gwrthsafiad. Ar ddechrau pob is-bennawd byddwn, yn ymgeisio at ddatganiad theoretig o'u hystyr, ac yna yn rhoi tystiolaeth o'u presenoldeb yn y cyd destun Cymreig trwy gynnig enghreifftiau o fyd sylwebaeth a llenyddiaeth, a thrwy hynny estyn cadarnhad i'n thesis yn y traethawd. Gogyfer a llunio'r fframwaith ddamcaniaethol byddwn yn tynnu yn helaeth ar waith Albert Memmi, *'The Colonizer and the Colonized'*, a phriodol yw ein bod ni yn cydnabod y ddyled honno. (Memmi.1974) Yn gyntaf felly-



## 1) ISRADDOLDEB.(Subalterneity)

Daw grŵp i brofi canfyddiadau o israddoldeb pan weithredir arno yn ddiatal, ac yn hegemoniol gan rym dominyddol arall. Dynodir yr effaith a ddeillia o'r broses hon gan gollu hyder, ac ar adegau ymron parlysiad, yn nghyneddffau diwylliannol a seicolegol y gymdeithas a'i profa. Mae Memmi yn crynhoi pan ddywed-

*'the colonized in the throes of assimilation hides his past, his traditions, in fact all his origins which have become ignominious'.* (Memmi.1974:147,166)

Yn y cyd destun Cymreig nid oes rhaid chwilio yn hir nac yn fanwl cyn canfod y cyfatebiaethau a'r cymwysiadau. Tra bod Chris Williams yn cyndyn gydnabod-

*'In broader terms one can speculate, somewhat vaguely, as to a Welsh 'inferiority complex' or schizophrenia'.* (Williams.C.2005:9)

Mae Kirsti Bohata ar y llaw arall yn llawer mwy parod i brisio'r cymorth a gynigir a'r cymariaethau posibl-

*'The psychological analysis of the colonial situation offered by Fanon, Memmi and others is usefull in understanding the Welsh experience, where the Welsh sense of inferiority...is instilled by the internalization of negative English/British perceptions and constructions of the Welsh'.* (Bohata.2004:24)

Beth felly yw'r dystiolaeth sydd gennym o amlygiadau o'r israddoldeb hwn yng ngwead y 'psyche' Cymreig? Ni thybir fod dod o hyd i enghreifftiau yn anodd, yn wir mae ystod y gyfeiriadaeth yn gyffredinol yn llawer helaethach na'r hyn y gellir ei ddehongli yn unig fel ystryw neu ystumio gan genedlaetholwyr. Hyd yn oed o'r chwith, fe nodir eto, fod llif cyson o gyfeiriadaeth i'w chael yn dadansoddi Cymru yn yr idiom hwn-

*'Moreover the plethora of literary depictions of Welsh experience that might be interpreted in postcolonial terms seems to suggest that these parallels are based on more than the strategic co-option of such tropes'. (Bohata.2004:10)*

Cyn belled ag y gochelir rhag gwranddo un llais yn unig, fe all llenyddiaeth roi gwybod i ni beth yw 'ysbryd y bobl'. (Williams, R.1983:19) Dyma lle y mynegir ac yr adleisir y gwaseidd-dra nodweddiadol-

*'Much of R. S. Thomas's polemic in 'Cymru or Wales'?-is devoted to cataloging outrageous instances of Welsh servility'. (Gramich.1997:112)*

Yma gellir nodi'r ysfa gref i ymwrthod a'r hunaniaeth gysefin- hyd yn oed ymhlith cenedlaetholwyr meddiannol ar yr iaith-

*'Paham y rhoddaist inni'r tristwch hwn..?'*

*Dy iaith ar ein hysgwyddau megis pwn,*

*A'th draddodiadau yn hual am ein traed'. (Gwenallt yn Edwards.1990:140)*

Yng ngweithiau rhai o'r rhai a amddifadwyd o'r iaith y mae'r dymuniad diystyriol hwn yn amlycach eto, ac ar adegau efallai yn fwy garw, ond yr un yw ei wraidd, megis ac a fynegir yn ymatebiad enwog Dylan Thomas- *'The Land of my Fathers?...My fathers can keep it'*. (Thomas, D. yn Knight.P.2004) Yma y cofnodir hefyd y ffraeo ffyrnig mewnol ag sydd eto yn nodweddiadol o gymdeithasau a goloneiddiwyd gan rymoedd allanol-

*'Y gweddill sydd yma- Beth ynt ond pirana*

*Mewn powlen yn difa*

*Ei gilydd'. (Gwyn Thomas yn Edwards.1990:544)*

Ac yn waelodol ac allweddol i'n damcaniaeth yn gyfan fe geir yma hefyd, ac mewn sylwebaeth ehangach, y dystiolaeth i gyfranogiad y Cymry yn eu diraddiad eu hunain. Tra bod llawer, medd Gwyneth Roberts, wedi adweithio yn erbyn adroddiad 1847-

*'Many others, however accepted, at least at some level, its message about themselves, their community and their language as it filtered down to them via comment, quotation and generalized summary. For them it constituted a devastating 'cultural bomb'...which blasted them into submission by telling them with all the power of its authority that the distinctive features which gave themselves, their community and their country a separate identity- most notably their language- were irredeemably inferior, backward, and barbaric, and should be discarded as objects of shame and guilt'. (Roberts.1998:238)*

Dros ganrif yn ddiweddarach mae Jac L. Williams yn sylwi ar yr amlygiad o'r wedd gywilyddiol hon ymhlith Cymry Cymraeg Ceredigion a'u defnydd cyffredin hwy o'r gair '*Welshy*' i ddynodi israddoldeb, twpdra, neu wrthrych dirmyg. (Williams, J.L. yn Roberts.1998:222) Y mae i bob ardal yn Nghymru yn siŵr eu henghreffitiau eu hunain o briodoleddu tebyg. Stori ydyw na all nad oes iddi effeithiadau sylweddol ar ganfyddiadau a phenderfyniadau hunaniaethol i ganlyn-

*'In Wales, the legacy of denigration and institutional exclusion, of concerted attempts to render the language obsolete, and a less than sympathetic education policy... was compounded by the widespread decisions of parents not to pass on the language to new generations for fear it hindering their progress'. (Bohata.2004:21)*

Hwyluswyd Seisnigeiddiad, ynghyd ag erydiad hyder hunaniaethol ehangach trwy'r trwch. Ond a yw'r '*subaltern*' Cymreig yn dal yn gallu 'llefaru' yn ddilyffethair wedi'r ffasiwn chwalfa? (Spivak.1985) Tra y pery'r traddodiad Cymraeg ei iaith yn ddi-dor ond argyfyngol, y mae trywydd a theithi'r traddodiad Saesneg ei iaith yng Nghymru ar rhyw ystyr yn fwy diddorol, yn gymaint a bod yr effeithiad ar y 'psyche' yn fwy dyrys-

*'The construction of the Welsh language as inferior resulted in writers ...writing in a 'colonial' language and yet one which was undeniably their own'. (Bohata.2004:21)*

A beth yw canlyniadau seicolegol y 'cyfyngiad' hwn ar eu 'llais'? Edrydd Raymond Williams; gwr ei hun a ddaeth at ei etifeddiaeth frodorol yn ymddangosiadol yn hwyr yn y dydd; am y gormodiaeth, a'r gwadu, a'r gwamalu, yn wir unrhyw ystryw i osgoi dwyster y dinoethiad. Fe nodweddir yr effaith gan-

*'An extraordinary sadness...a fantastic comic edge, or wild self-depreciation, as a form of pride: a wall of words, anyway, so that we do not have to look, steadily and soberly, at what has happened to us'. (Williams, R.2003:9)*

Ategir y mewnwleidiad treiddgar hwn i'r profiad Cymreig gan y llenor arall Eingl-Gymreig hwnnw, Emyr Humphreys; sydd, unwaith yn rhagor yn awyddus iawn i'n hargyhoeddi ni o ddilysrwydd gwirioneddol y patrymau profiadol hyn ym mywydau bob dydd y bobl-

*'These stories were about what was happening to people at that time born and bred in Wales- and still living in what you call the post colonial situation. That situation still exists of course... the consolidation of colonial 'occupation' into a settled state of affairs- depended on the willing subservience of the natives. And this involved breeding in them an admiration of the colonial power'. (Humphreys.2002:189)*

Dychwelwn at y pwynt olaf cyn diwedd y traethawd hwn, ond mewn ymateb i'w eiriau nid yw ei gyfwelwraig, yn petruso o gwbl rhag brysio i osod eu trafodaeth yng nghanol y cyd destun olgoloneiddiol cyfredol, nac ychwaith rhag amneidio ei chydysnied fod y cymhwyso Cymreig yn ei golwg hi o leiaf yn fwy na phriodol-

*'What becomes clear in 'Natives' is that the deepest- in the sense of the longest lasting- damage done by colonization is not through the initial subjection of a people to the power of a foreign state, but the way in which that foreign state is translated into the state of mind of colonized people....that complex state of affairs that Gramsci famously identified as 'hegemony', the 'normalization' of the abnormal so that it comes to seem natural, inevitable and immutable'. (Thomas, M.W. yn Humphreys.2002:190)*

## 2) DADLEOLIAD.(Dislocation)

Digwydd dadleoliad pan y disodlir diwylliant cynhenid gan y diwylliant coloneiddiol, naill ai yn llythrennol oddi ar ei diriogaeth daearyddol gwreiddiol; neu mewn ystyr mwy ffigurol, o'r manau manteisiol blaenorol a arferid eu cwmpasu ganddo yng ngweithrediadau, ac yng nghanfyddiadau y bobl cyn coloneiddiad. Cyffelybir y profiad ohono ar y gwastad seicolegol i anniddigrwydd dwfn, neu ddiethriad amgyffrediadol cyffredinol yn y gymdeithas, neu'r unigolyn, sydd yn cyfrannu ynddo-

*'A term often used to describe the experience of dislocation is Heidegger's term 'unheimlich' or 'unheimlichkeit'- literally 'unhousedness' or 'not-at-home-ness'- which is also sometimes translated as 'uncanny' or uncanniness'. (Ashcroft, Griffiths, Tiffin.1998:73)*

Un trawst neilltuol y mae ei symudiad o'r 'tŷ' yn prysuro ei ddymchweliad a'i ddatodiad yw distyn hanes y bobl a fu'n byw ynddo. Y mae'r un a goloneiddiwyd yn cael ei amddifadu o wybodaeth am ei orffennol, ac ymhen y rhawd yn bodloni i ddewis bod felly hefyd-

*'The memory which is assigned to him is certainly not that of his people...who are his folk heroes? At most, he may be able to give us a few names, in complete disorder..The colonized seems condemned to lose his memory'.*

(Memmi.1974:149,146)

A'i annheg yw'r gymhariaeth gyda chanfyddiadau'r Cymry o'u hanes, ynghyd a'r ategu o'r anwybodaeth, hyd at yn ddiweddar iawn, gan y system addysg?-

*'Dysgem hanes tras estron,- a'n hanes ni ein hunain dan gloeon,..*

*Ein harwyr ar ddisberod; -anhysbys dan glasbiau Prydeindod'.* (Alan Llwyd yn Edwards.1990:426,427)

Canlyniad yn rhannol eto efallai yr Uno, a oedd yn ymgais, yn ôl Gwyn Alf Williams, i wneud Cymru yn 'anweledig'. (Williams, G.A.1985:119) Ond nid amnesia anffodus a ddeillia o ddeddfwriaeth llychlyd y gorffennol yn unig yw hwn. Mae Memmi eto, yn tynnu ein sylw ni at y diwreiddio a ddigwydd i'r rhai a goloneiddiwyd trwy wadu eu hanesyddoldeb yn fwriadol; weithiau trwy eu sgwennu allan o'r stori yn gyfan gwbl; dro arall trwy ddulliau mwy cyfrwys a chynnil megis dadbersonoli - *'Everyone knows..'* fod yr un *'whose origins are unknown has no history'*. (Memmi.1974:146) Cymharer hyn gyda'r arferiad cyson ar raglenni hanes poblogaidd ar y teledu o siarad am y Rhufeiniaid, yr Eingl-Sacsoniaid, y Llychlynwyr, y Normaniaid i gyd wrth eu henwau priod, ond pan yn sôn am y Brythoniaid does dim enw na cyfnod penodedig, dim ond y term amhersonol ac annelwig 'yr oes haearn'. Dyma flas, fe ddadleuwn, ar y dadleoli sy'n nodweddu'r Cymry parthed eu hamgyffrediad o'u hanes-

*'A colonized people who have been deprived of the ability to see how the record of their pre colonial history lies all around them in the now mute language of the landscape'.* (Humphreys.2002:9)

Tebyg hefyd, eto medd Memmi, fydd y dystiolaeth mewn meysydd eraill mwy diriaethol, gydag hyd yn oed pensaernïaeth a thadogiad enwau lleoedd yn adlewyrchu goruchafiaeth y diwylliant dominyddol dros yr eiddo'r brodorol- *'The buildings are patterned after the colonizer's own favorite designs; the same is true of the street names'*, wrth iddynt hwythau gael eu henwi yn benodol iawn i ddathlu cyflawniadau, buddugoliaethau, a gwerthoedd ymerodraethol. (Memmi.1974:148) Yng Nghaernarfon fe geir Vinegar Hill, Pretoria Terrace, a Mafeking: yng Nghaerdydd fe geir King George V Drive a Queen Street: yn Llanelli, Ysbyty'r Tywysog Philip; ym Merthyr, Ysbyty'r Tywysog Siarl; ac ym Mhenybont, Ysbyty Tywysoges Cymru; ac fe geir 'London' neu 'Manchester House' ymron ym mhob un o bentrefi Cymru drwy'r wlad yn ddiwahân.

Cofiannol neu leoliadol; yn olaf, y maes ble y profir efallai y dadleoliad mwyaf ingol, yn y cyd destun Cymreig o leiaf, yw eto yr un a ddigwydd yn sgil disodliad ieithyddol. Dyma a grea y dieithrio ac a'n gedy yn gwbl ddiymadferth i'w wrthweithio-

*'Gofid yw colli gafael- ar ddaear*

*O ddewis ymadael,*

*Ond a'n gwlad yn ein gadael*

*'Does hid na gofid i'w gael'*. (Ieuan Wyn yn Edwards.1990:532)

Y mae effeithiau'r ymddatodiad hwn ar yr hyder hunaniaethol yr unigolyn, yn ddifäol ac ymron yn derfynol-

*'Dieithryn i'w wlad ei hunan;- pwy oedd, Pwy yw ni wŷr weithian;*

*Colli'r Iaith fu colli rhan, colli'r cof, colli'r cyfan'*. (Rhys Davies yn

Edwards.1990:218)

Cynorthwyr ein dealltwriaeth ni ymhellach o rym y ddeinameg, a dyfnder gwirioneddol yr hyn sydd yn y fantol yma, eto gan ddadansoddiad Memmi, pan yr eglura-

*‘The colonizer’s mother tongue, that which is sustained by his feelings, emotional dreams, that in which his tenderness and wonder are expressed, thus that holds the greatest emotional impact, is precisely the one which is least valued. In the linguistic conflict within the colonized his mother tongue is that which is crushed. He himself sets about discarding the infirm language, hiding it from the sight of strangers’.* (Memmi.1974:151)

Diddorol bob amser yw’r oll o’r agweddau ‘cuddiadol’ tuag at yr iaith; gydag agweddau cynnar tuag at y ‘dysgwyr’, ynghyd ag agweddau cyffredinol y Cymry Cymraeg tuag at ei hymestyniad yn neilltuol felly o ddadlennol. O’r embaras a’r amharodrwydd i arfer y Gymraeg gyda dieithriaid, i’r cyndynrwydd i hysbysebu yn yr iaith gan berchnogion busnes mwyaf Cymreig cefn gwlad, ymddengys fod yna o hyd yn y Gymru gyfoes dystiolaeth o’r patrymau ymddygiadol gyfeirir atynt gan yr ysgolheigion olgoloneiddiol.

Unwaith yn rhagor eto hefyd y mae i’r dadleoliad hwn ei effeithiad eglur simsanol ar ogwyddiad a dyhead y di-Gymraeg yng Nghymru lawn cymaint a’r Cymry Cymraeg. Ym mha iaith yn awr y dylid ysgrifennu am y profiadau hyn? Tybed nad oes yn y disodliad a’r dadleoliad ieithyddol beth eglurhad am yr arafwch a’r hwyrfydedd i gofleidio ysgrifennu yn yr iaith yr Saesneg? Profiad dieithr iawn, meddir, yw ysgrifennu ar gyfer pobl eraill rhagor na’n pobl ni ein hunain, profiad mwy chwithig fyth wedyn yw ysgrifennu yn idiom y concwerwr. (Memmi.1974:152) Disgrifia Emyr Humphreys y ‘*Kulturrekampf*’ hwn- yr ymrafaelio diwylliannol sy’n digwydd pan fo



rhywun yn ceisio defnyddio'r iaith imperialaidd i fynegi profiad y brodor  
gorthrymedig-

*'It is something that haunts the condition of someone like myself, born into the...subordinate community. It's a classic condition- you can trace it in black culture as well...'. 'It's what post colonial theory calls the subaltern imagination'.* (Humphreys, Thomas, M.W.yn Humphreys:2002:9)

Mae'n myfyrio ymhellach ar greadigaethau'r dychymyg hwn, a'i ymffurfiadau yn y  
'psyche'-

*'Our people have been inclined to find a curiously significant relationship between the theological concept of the Fall of Man and the historical quasi-myth of the Loss of Britain and Fall of a Nation. Our Empty Space has more often than not been concerned with the Paradise we were turned out of and to which in one way or another we aspire, conspire and yearn to return'.*  
(Humphreys.2002:219)

Tra gellir gwerthfawrogi felly 'ysbrydolrwydd' y Cymro yn rhannol fel 'cynnyrch' y pŵer dominyddol a weithredwyd arno yn ôl y ddealltwriaeth Foucauldaidd, o'r olwg arall y mae yn amlwg fod y profiadau dadleoliadol hyn yn rhai neilltuol o ddwys a phoenus; mwy felly mewn rhai ffyrdd i'r di-Gymraeg, nac i siaradwyr yr iaith. Pan y mae'r di-Gymraeg yn ceisio llefaru gellir gweld ei ymdrechion fel y –'a *literature of the internal exile, or a deterritorialized literature*'. (Gramich.1997:107) Mwy unig, ac yn llai ei werthfawrogiad, na'r cynganeddwr sy'n cael ymgeisio am gadair eisteddfod-'*It is possible to be an exile in one's own country and to receive short shift too*'. (Thomas, R.S.yn Gramich.1997:108) Cymaint digyswllt yn awr yw ei fydd oherwydd y dadleoli coloneiddiol, mor gloff ydyw oherwydd y llyffethair a roed arno-

*'Why must I write so?'*

*I'm Welsh, see:*

*A real Cymro,..*

*Only one loss,*

*I can't speak my own language-*

*All those good words;*

*And I outside them,*

*Picking up alms*

*From blonde strangers'. (Thomas, R.S. yn Gramich.1997:107)*

### 3) AMWYSEDD.(Ambiguity)

Rhydd Fanon grynoded tra dramatig a chofiadwy iawn i ni o ogwyddiad amwys y brodor pan y'i disgrifia-

*'The native's muscles are always tensed...He is in fact ready at a moment's notice to exchange the role of the quarry for that of the hunter'.*

(Fanon.1963:41)

Tra yn rhwym o orfod ymostwng i'r cywasgiadau cyd destunol a gymhellir arno, nid yw ei deyrngarwch o reidrwydd wedi ei warantu. Y mae ei wir edrychiad ar unrhyw un amser yn anodd i'w asesu, llai fyth i'w gymryd yn ganiataol. Mae yma ddeuoliaeth. Yn arferol bydd yr ymgreinio yn parhau, ond dro arall fe eill yr ymddiriedaeth gael ei dryllio, neu eu bradychu, a'r gwas bryd hynny ymddangos yn fygythiad i'w feistr. Tybed nad yma yn wir y ceir yr eglurhad ar y ddrwgdybiaeth oesol o'r Cymry gan eu cymdogion; sentiment efallai , yn ôl y ddeinameg hon, na fyddai heb rhyw gymaint o sail iddi?

Y mae'r seicoleg yn hyn oll yn un dwfn. Yn yr ysfaf gymhathiadol y mae'n rhaid i'r brodor ymwrthod a'i nodweddion hunaniaethol ei hun er mwyn cyflawni'r gamp, proses na all ond dwyn niwed yn ei sgil- '*subtended by a complex of feelings ranging from shame to self hate*'. (Memmi.1974:165) Oherwydd nid dim ond chwennydd breintiau a wneir; i'w meddiannu yn llawn, mae yn rhaid iddo yn awr hefyd gofleidio gwerthoedd y coloneiddiwr. Ond fe a geir ergyd farwol yn sgil hynny, pan y doi'r i'r sylweddoliad brawychus-

*'The crushing of the colonized is included among the colonizer's values. As soon as the colonized adopts those values, he similarly adopts his own condemnation. In order to free himself, at least so he believes, he agrees to destroy himself. This phenomenon is comparable to Negrophobia in a Negro, or Anti Semitism in a Jew'*. (Memmi.1974:165-166)

Neu tybed eto, ieuencid Dollgellau, Pwllhelli a Bangor, a'u cyfenwau yn Jones, Davies a Williams, yn difrio eraill o'r un enwau a hwy eu hunain, ac yn eu galw yn 'welshies', 'josgins', 'hicks', ac ambell i ddisgrifiad mwy annymunol a di-chwaeth na hynny hefyd?

Nid oes rhaid edrych ymhell i ganfod mynegiadau o rhai o'r patrymau ymddygiadol hyn eto mewn llenyddiaeth a sylwebaeth ysgrifenedig. Pwy na sylwa ar yr union amwysedd teyrngarwch deuoliaethol hwn yn y gerdd enwog 'Hon'?- '*Beth yw'r ots gennyf fi am Gymru?*', ac eto yn y diwedd meddir, '*Ni allaf ddianc rhag hon!*'. (T.H.P.W. yn Edwards.1990:142) Ceir enghreifftiau yn tanlinellu'r anwadalwch cyffredinol a berthyn i'r cyflwr-

*'Anwadal yw'r genedl hon,- ac oriog Yw'n gwerin wangalon:*

*Gwamal fel dawn y gwymon Lle chwyth y gwyn ewyn don'*. (Alan Llwyd yn Edwards.1990:426)

Mae blas i'w gael ar yr hunan gasineb a'r diflastod a grea-

*'A mwyach mae fy mywyd- yn wrtheb,..*

*Caru iaith fy ngwlad o'r crud, A chasáu'r gweilch a'i sieryd'. (Alan Llwyd yn Edwards.1990,532)*

Maentumir fod yna hefyd esiamplau i cael o'r amwysedd hwn yn hwyluso, os nad yn hybu, hunan les ym mywyd ambell i 'gomprador' mwy llwyddiannus na'i gilydd –

*'The ambiguity and ambivalence of nineteenth century Wales are nowhere better encapsulated than in the emotive, yet deeply self concious, career of David Lloyd George, who milked the invented tradition of Wales for all its political worth during a lifetime that was, in part, shaped by all this Welsh self preening'. (Smith.1999:89)*

Wrth geisio dadansoddiad pellach o'r amwysedd Cymreig, mae Chris Williams yn cydnabod fod ynddo'r potensial gogyfer a gwrthryfel, ond yn tynnu'n sylw ni at yr edmygedd o Loegr neu Brydain, sydd meddai, wedi bod yn llawer mwy nodweddiadol a chyffredin. Mae'r Cymry wedi arddangos yn gyson eu hawydd i gydweithredu gyda'r drefn, ac ar adegau eu parodrwydd i droi ar y rhai fyddai am herio hynny, er enghraifft ym mhleidlais 1979, a maint y gwrthwynebiad yn 1997. Eto'i gyd, serch hynny, y mae yn barod i addef -

*'There has been.. a deeply ambivalent attitude towards the English by the Welsh, that merits more than sideways dismissals as either a self serving accomodation or an increasingly outmoded form of false conciousness'.*

(Williams. C.2005:13)

Mae yn mynd ymlaen i'n hatgoffa ni nad oes y fath beth a hunaniaeth da neu ddrwg; yn ddiddadl felly, ond y mae'r pwynt sylfaenol wedi ei ildio, sef fod y ffenomenon hwn yn real, ac felly yn hawlio eglurhad deallusol boddhaol ar ei darddiad. Cynigia

Raymond Williams esboniad mwy treiddgar efallai o'r gwahaniaethiad gwleidyddol a'i berthynas a'r amwysedd, pan yr awgryma fod y profiad Cymreig wedi arwain-

*'Not only to division but to self-division, as people have found themselves caught in what are ultimately incompatible interests and loyalties...this has led on the one hand, to archaic or residual types of nationalism...on the other hand, to pseudo-modernist rejections of the specificities of Welshness'.*

(Williams, R.1983:23)

Ble felly y ceir y Cymro? Pa mor boenus bynnag felly y broses gymhathiadol, fe ellir efallai gobeithio gweld rhyw gyflawniad gogoneddus, oddieithr medd Memmi eto, nad oes ynddi wrthebau syniadaethol.(Memmi.1974:167) Fodd bynnag y mae'r ymgeisydd brwd yn y diwedd bron yn ddieithriad yn blino ar dalu'r pris a ofynnir am gael ei dderbyn. Brawycha pan y cenfydd yr hyn y mae ar fedr ei gyflawni. Mor gyfarwydd yw bellach a gweld ei hun trwy lygaid y coloneiddiwr; ymron popeth ynglŷn ag o'i hun yn chwithig ac anffasiynol. Ond a all yn awr droi ei gefn yn derfynol ar ei bobl, a chyflawni'r hunan wadiad angenrheidiol i groesi'r bont olaf un i mewn i deyrnas ei feistr? Yn ffodus, neu yn anffodus, yn amlach na pheidio fe'i harbedir rhag cael y cyfle fyth. Oherwydd er cymaint yw ei ddyhead-

*'Nonetheless, the major impossibility is not negating one's existence, for he soon discovers that, even if he agrees to everything, he would not be saved. In order to be assimilated, it is not enough to leave one's group, but one must enter another; now he meets with the colonizer's rejection'.. 'All that the colonized has done to emulate the colonizer has met with disdain from the colonial masters. They explain to the colonized that those efforts, are in vain, that he only acquires thereby an additional trait, that of being ridiculous'.*

(Memmi.1974:167-178)

Megis y difethwyd ymgais Neil Kinnock i arwain y Deyrnas Gyfunol yn rhannol yn sŵn y tadogiadau difriol y 'Welsh windbag' a'r 'boyio' yn y wasg Lundeinig; ar drywydd tebyg hefyd, pan ofynnwyd i'w etholwyr yn Islwyn am eu hesboniad hwy ar pam y bu iddo golli etholiad 1992, er ei holl 'Brydeindod', yr ateb a gaed ar y stryd yn ddi-feth ydoedd '*because he was Welsh*'. Tra y mae gyrfa gyferbyniol Lloyd George yn awgrymu y gall fod yr hunaniaeth Prydeinig yn fwy cymhathiadol llwyddiannus yn awr anterth yr Ymerodraeth; serch hynny, y mae goroesiad y ddeinameg hon yn awr yn tanlinellu un elfen ychwanegol arall yn y proffil coloneiddiol Cymreig.

#### 4) EFELYCHIAETH. (Mimicry)

Digwydd efelychiaeth pan fo'r ddisgwrs goloneiddiol yn annog ei deiliaid i ddynewared y coloneiddiwr yn yr oll o'i agweddau diwylliannol, sefydliadol, gwerthol, a dyheadol. Ond; fe'n rhybuddir rhag un eiliad a thybio y llwyddir i sicrhau ddim yn agos at union gyfatebiaeth-

*'Rather the result is a 'blurred copy' of the colonizer that can be quite threatening. This is because mimicry is never far from mockery, since it can parody whatever it mimics'.* (Ashcroft, Griffiths, Tiffin.1998:139)

Tebyg, ond symlach, yw dadansoddiad Bhabha, pan y disgrifia ef ymdrech yr efelychwr a fydd yn esgor ar greadur- '*Almost the same, but not quite*'. (Bhabha yn Ashcroft, Griffiths, Tiffin.1998:140) Bychan o wahaniaeth ymddangosiadol geir, ond digon er hynny i fod yn broblematig. Oherwydd fe grëir-

*'A double vision which in disclosing the ambivalence of colonial discourse also disrupts its authority'.* (Bhabha yn Ashcroft, Griffiths, Tiffin.1998:140)

Gellir olrhain yr efelychiaeth anwastad hwn yn ôl i gyfnodau cynnar yn y profiad Cymreig; gyda Glyndŵr, ac yn arbennig efallai troeon gyrfaol aelodau gwahanol teulu Tuduriaid Penmynydd, yn arddangos yr oll o nodweddion clasurol efelychiaeth wasaidd arferol, ond yn cynnwys hefyd y potensial ar rhai adegau ar gyfer herio. Cyn ac ar ôl y Goncwest gellir sylwi-

*'The often desparately expressed anxiety of the leaders of native society to be embraced...they rarely secured a sustained entree into the higher echelons of English..life. Rather did they feel increasingly excluded'. (Davies, R.R.2000:201)*

Ond a welwyd lleihad yn nwyster y tueddiad hwn wedi'r normaleiddio a'r cydraddoli honedig y dywedir iddo ddilyn yr Uniad? I'r gwrthwyneb, nid unig y mae yn parhau, ond y mae yn cynyddu i gyrraedd uchelfannau newydd, yn wir ar adegau i ymylu ymron ar y patholegol. Y mae yn drawiadol fel y lluosogir yr esiamplau o efelychiaeth, nid yn gymaint hyd at 1536; nid hyd yn oed rhwng 1485 a 1536, ond yn hytrach ar ôl 1536 y gwelir yr enghreifftio o'r ffenomenon hon yn myned ar garlam. Pam, a sut y digwydd hyn os yw statws 'coloneiddio' Cymru yn awr wedi peidio? Neu yn hytrach efallai; yr hyn ddylem nodi yw; os yw'r statws drefedigaethol boliticaidd draddodiadol yn gorfod cael ei hildio, na ddylem brysuro i wneud hynny yr un mor barod gyda'r diffiniadau mwy cynhwysfawr o ystyr ehangach 'coloneiddiad'. Atgoffir ni eto- *'Mimicry has often been an overt goal of imperial policy'*. (Ashcroft, Griffiths, Tiffin.1998:139) Amddiffyniad pennaf pleidwyr y ddealltwriaeth draddodiadol o'r ddeddfwriaeth Uno yw absenoldeb honedig unrhyw ddrwg fwriad, ffactor oll bwysig a'u gwna wedyn rhywfodd yn ddidda ddiddrwg, ac yn felly yn foisol niwtral. Ond, yn y cyd destun hwn efallai yn anad un, priodol yw gofyn eto, pa bryd y mae polisi yn fwriadol, neu yn anfwriadol? Megis y defnyddiodd

Macaulay ei '*minute to parliament*', yn 1835 i ddifriö diwylliant y dwyrain, ac annog dysgu Saesneg yn yr India, onid yr un dymuniad i hybu efelychiaeth a welir yn gweu yn gyson drwy'r cyfan o 'bolisiâu' Cymreig llywodraethau canolog yn y canrifoedd wedi 1536, ymron hyd at ein cyfnod ni? (Ashcroft, Griffiths, Tiffin.1998:139) O syniadaeth sylfaenol y Deddfau Uno ei hunain, i'r 'rheswm' pam y cyfieithwyd y Beibl, i Adroddiad Comisiynwyr Addysg 1847, yr un llinyn arian cyffredin a'i clyma yn eu gilydd yw'r perswâd a ddygir ar y Cymro i ildio ei nodweddion gwahaniaethol unigryw, a mabwysiadu ymhen y rhawd yr eiddo y diwylliant dominyddol. Nid yw'n syndod o fath yn y byd bod y fath gymhelliad a weithredai yn bennaf oll ar y gwastad cynnil seicolegol yn dra llwyddiannus yn ei ddydd. Gynted ac yr 'enillwyd coron Prydain yn ôl' gan y Tuduriaid-

*'Spotting these somewhat diluted 'Welshmen' among the elite became...a national pastime among later stay-at-homes. There were hordes of lesser imitators'.* (Williams, G.A.1982)

Dyma 'ddiddordeb cenedlaethol' a fyddai yn mynd o nerth i nerth, i gyrraedd ei benllanw efallai yn ystod yr ysictod ymerodraethol Fictorianaid, cyfnod y disgrifia Hywel Teifi Edwards fel awr anterth 'Saisaddoliaeth'.(Edwards, H.T.1989:141) Cyfnod lle y gwelir cyfranogiad ymron y Cymry oll yn yr hyn na ellir ei ddisgrifio ar adegau ond fel obsesiwn, os nad hysteria-

*'In spite of the racist animosity towards the Welsh language so often displayed by the Times in the mid-nineteenth century, we are obliged to accept that the most influential leaders of Welsh life at the time were falling over themselves in their anxiety to obtain an English education for their people. The 'Welsh Not' was not a pleasant ornament to hang around a child's neck on a Friday*



*afternoon, but we have to remember that it was Welsh schoolmasters for the most part that perpetuated the custom'. (Humphreys.2002:164)*

Ac eto baglu a methu fu hanes y broses gymhathiadol; hynny am resymau gwleidyddol yn ymwneud efallai a natur y wladwriaeth Brydeinig ei hunan; ond, hefyd yn ôl lladmeryddion y critique olgoloneiddiol, yn amlach na pheidio fe ddigwydd oherwydd anghysonderau dybryd yn y ddeinameg goloneiddiol ei hunan. Fe sylwir eto yng nghyswllt profiad yr India-

*'While Macaulay's interpreter, or Naipaul's 'mimic man', are 'appropriate' objects of a colonial chain of command, they are also 'inappropriate' colonial subjects because what is being set in motion in their behaviour is something that may ultimately be beyond the control of colonial authority'. (Ashcroft, Griffiths, Tiffin.1998:141)*

Atgoffir ni hefyd eto yn y cyd destun Cymreig o'r wrtheb honno ymhlyg yn yr ethos goloneiddiol na fyn yn y diwedd un weld cymhathiad. Eglurir i ni yng ngweithiau Dewi Z Philips a J R Jones sut y mae 'Prydeindod' yn temtio'r Cymry i feddwl am gymhathiad, tra gydol yr adeg ei bod yn gwbl amlwg na ddigwydd hynny ddim byth.(Bohata.2004:6) Canlyniad hyn oll wedyn yw creu cyd destun weithiau ar gyfer brodoreiddio drachefn, megis ac a enghreifftir yn Nghymru, fe ellir dadlau, yn nhroeon gyrfaol Ron Davies, ac i raddau llai Rhodri Morgan. Esiamplau efallai o'r methiant efelychol y disgrifia Homi Bhabha fel- *'a flawed colonial mimesis in which to be Anglicised is emphatically not to be English'?* (Bhabha yn Ashcroft, Griffiths, Tiffin.1998:140) Dro arall y mae'r adwaith yn amlycach, a'r newid cwys tactegol yn fwy dramatig. Er ei waseidd-dra parod, a'i ymgreinio ymostyngar, nid yw popeth bob amser fel y mae yn ymddangos. Yn wir-

*'Mimicry...locates an area of considerable political and cultural uncertainty in the structure of imperial dominance'. (Ashcroft, Griffiths, Tiffin.1998:142)*

Oherwydd yr amwysedd gwaelodol a berthyn i'w gyd destun, fe all yr efelychiaeth droi yn sydyn, fel cwpan mewn dwr, gan roi mynegiant wedyn i'n nodwedd hunaniaethol olaf a dynoda coloneiddiad.

#### 5) GWRTHSAFIAD.(Resistance)

Wedi ei ddarbwylllo mor hir i gredu y gall ymgymhathu, o'r diwedd y mae yn darganfod na ddigwydd hynny, ond wedyn beth a wna'r brodor? Fe fydd yn gwrthryfela. Ond ni fydd hynny yn dod yn rhwydd iddo. Fe fydd y dirgryniadau a deimlir yn sgubo trwy'r seicoleg hunaniaethol yn rhai sylweddol. Fe fydd ganddo amheumon mawr o hyd, ac fe fydd ei ymddygiad yn anwastad, ac weithiau yn afresymol-

*'Realising that these attitudes are essentially reactions, he suffers from pangs of bad faith. Uncertain of himself, he gives in to the intoxication of fury...He asserts himself vigorously. Uncertain of being able to convince others, he provokes them. Simultaneously provocative and sensitive..becomes indignant...Automatically distrustfull, he assumes hostile intentions'.*

(Memmi.1974:184)

Tybed nad oes yna rhyw dreiddgarwch dadansoddiadol neilltuol yn y fan hon, ac sydd yn cyffwrdd a rhai o'r elfennau llai deniadol yn 'psyche' poblogaidd y Cymro cyfoes; gyda golwg, er enghraifft, ar yr angerdd anghymesur, a'r ddrwgdybiaeth o bob rhyw sylw ysgafn a anelir tuag ei genedligrwydd? Pwysicach eto fodd bynnag yw canfod a

oes olion mwy cyffredinol o wrthsafiad yn y stori Gymreig. Mae Raymond Williams o'r farn fod y dystiolaeth honno i'w chael yn ddiymwad-

*'At many levels, within these complex processes, Welsh people resisted what was being done to them'. (Williams, R.1983:22)*

Gan nad coloneiddiad arferol eto fu'r stori honno, mae cenedlaetholdeb Gymreig yn dueddol o fod wedi canolbwyntio ar wrthsefyll imperialaeth ddiwylliannol Lloegr, gydag ymreolaeth yn cael ei ystyried yn bennaf fel modd i warchod yr arwahanrwydd diwylliannol a fygythid gan hwnnw. Ar ben y rhestr eto mae'n siŵr fe geir yr ymdrechion ieithyddol cyfarwydd, ond mae'n bwysig sylweddoli efallai nad annisgwyl o gwbl yw'r blaenoriaethu hwnnw yng nghyd destun y patrwm olgoloneiddiol-

*'The most urgent claim of a group about to revive is certainly the liberation and restoration of its language...Only that language would allow the colonized to resume contact with his interrupted flow of time and find again his lost continuity'. (Memmi.1974:154)*

Yn ychwanegol at y wedd ieithyddol, fe ellir sylwi hefyd ar batrwm arall gwrthsafiadol nid anghyfarwydd eto i'r olgoloneiddwyr, sef y ddeinameg honno a fyn esgor ar 'sefydliadau amgen' er mwyn sicrhau goroesiad hunaniaethol. O oes aur lenyddol y bedwaredd ganrif ar ddeg, i anterliwtiau Twm o'r Nant, i Ymneilltuaeth, fe grëwyd cerbydau tra cyfleus gan y Cymry i sicrhau cynaladwyaeth ddiwylliannol yn annibynnol ar, ac yn absenoldeb, nawdd gwladwriaethol. Er nad yn uniongyrchol wleidyddol, yn strwythurol o leiaf, paratua'i Anghydfurfiaeth bopeth angenrheidiol gogyfer a gofynion cymunedol a chymdeithasol y dydd. Gwnaethai hyn yn y Gymraeg, y tu allan i, ac yn gyfochrog a'r ethos Seisnig Ymerodraethol, pan oedd

hwnnw yn ei anterth. Gwir, gyda threigliad amser, fod peth colli yn digwydd o'r pwll gwreiddiol Gymreig hwn i'r pwll mawr Prydeinig swyddogol- megis ac a gynrychiolir gan rai fel Thomas Charles Edwards, O. M. Edwards, ac yn wir Lloyd George ei hun- ond serch hyn, camp nid bychan ydoedd yr hyn gyflawnwyd gan- '*The pseudo- nation of a 'Nonconformist People'*'. (Williams, G.A.1982:195)

Mewn cyfnodau diweddarach gellir parhau i olrhain y ddeinameg wrthsafiadol gyffredinol wrth iddi gymryd ffurfiau mwy seciwlar ac amlwg wleidyddol, megis Rhyddfrydiaeth, a thwf yn mudiad Llafur, yn ogystal a mudiadau cenedlaethol penodedig. Camarweiniol fodd bynnag fyddai meddwl am broses llinellol, ac edrych ar yr olaf bellach fel yr unig arddangosiad o wrthsafiad. Edrycha Raymond Williams ar barhad cyfranogiad y Cymry mewn mudiadau ehangach o hyd fel tystiolaeth ddilys i'w gwrthsafiad, yn gymaint ac y gwêl fod y patrwm mynegiadol hwnnw – '*not yet concluded*'. (Williams, R.1983:23) Yn y cyfnod modern dadleir fod Williams yn gosod y gwrthsafiad Cymreig yng nghyd destun gweithrediadau'r chwith newydd. (Williams, D.yn Williams, R.2003:xxiii)

Beth felly am amlygiadau penodol o strategaethau gwrthsafiadol olgoloneiddiol yn y cyswllt Cymreig? Eto y mae'r cyfatebiaethau a'r cymariaethau yn niferus ac yn gyffrous. Ceir enghreifftiau o Ymwrthodiad, ble gellir cofnodi'r foment benderfyniadol wrthsafiadol yn digwydd yn ymwybodol mewn amser, a fydd, wedi'r croesi'r trothwy, neu lifo dros y cefnddwr hwnnw, yn esgor ar ymagweddiad cwbl wahanol i'r hyn a gaed cynt-

*'Rwyf wedi cael llond bola o fod yn hanner Cymro..*

*Rwyf wedi penderfynu bod yn rhydd*'. (Iwan.1986)

O gloriau'r cylchgrawn cynnar 'Cymru Goch' i'r brwydrau ieithyddol llawer mwy diweddar, atseinier yr alwad i gael 'popeth yn Gymraeg', er ei bod ymarferol gwbl amhosibl ar y pryd i wneud hynny. (Edwards, O.M.1893:336) Adlewyrchir yn y lle cyntaf un, nid yn gymaint bolisi pragmataidd, ond yn hytrach gyfnewidiad yn y meddwl, a esgor ar strategaeth ymddangosiadol ffôl, ond chwyldroadol-

*'He does without tobacco if it bears the colonialist stamp! These are pressure methods and economic sanctions, but they are equally sacrificial rites...He will forgoe the use of the colonizers language, even if all the locks in the country turn with that key; he will change the signs and highway markings, even if he is the first to be inconvenienced'.* (Memmi.1974:173,181)

Ni yw'n hir ychwaith cyn iddo weld apêl Hanfodiaeth (Essentialism). Rhaid wrth y symleiddiad hwnnw a olyga weithiau gorsymleiddiad. Ar gyfer hyrwyddo'r achos fe fydd popeth arall dros dro yn cael ei hepgor. Canolbwyntir ar atgyfnerthu a chyfathrebu hefo'r grŵp, ac ar gyfer hyn gelwir am ymrwymiad ac unoliaeth- *'The native's voice unifies the people'*. (Fanon.1963:74) Felly hefyd yr ysgrifenna'r cenedlaetholwr o Gymro-

*'Un cof a roed i'n gofal, ac un graig I'n gwrogaeth ddyfal;  
Un hanes yn ein cynnal Un darn o dir yn ein dal'.* ( Ieuan Wyn yn Edwards.1990:216)

Eto nid yw'r cyffredinoli hwn fyth yn real-

*'Wrth weld y Gymru sydd yma'n awr, 'Rwy'n amau'n fawr  
A fu'r fath Gymru a hyn erioed yn bod'.* (Leslie Richards yn Edwards.1990:208)

Yn hytrach fe fydd yn ganlyniad deinameg gwrthdrawiadol y frwydr, neu ar adegau eraill yn Hanfodiaeth Strategol bwriadol (Strategic Essentialism), pan y mabwysiadir

dadansoddiadau deuol amheus i hybu ymgyrchu politicaidd effeithiol. Rhydd R. S. Thomas enghreifftiau penigamp i ni o'r ffenomenon a'r dewisiad o'r strategaeth hon yn y cyswllt Cymreig-

*'I choose my title because I cannot in this context see a third or fourth condition, Cymru or Wales; there is nothing between'.* (Thomas, R.S. yn Gramich.1997:104)

Yn amlwg y mae i'r fath strategaeth ei beryglon, yn arbennig os bydd iddo ysgogi'r nodwedd arall hwnnw ganfyddir yn gyffredin mewn cymdeithasau a goloneiddiwyd, sef Hiliaeth. Pan gyplysir y ddeubeth yn eu gilydd, Hanfodiaeth a Hiliaeth y mae rhai o'r drychfeddyliau a gynhyrchir yn rhai gwirioneddol frawychus; oddieithr eu bod wedi eu bwriadu yn ddoniol, megis yr esiampl hwn, sydd yn ffodus i'r awdur wedi ei gyhoeddi yn ddiennw- *'A wŷr mil, er eu malais, Dan ei swydd ai dyn yw Sais'?* (Anhysbys yn Edwards.1990:535) Eto serch y peryglon gwêl rhai awduron fanteision strategol i'r Hiliaeth hwn hefyd. Tra mae Fanon er enghraifft yn chwyrn ei anogaeth, ac yn ffri ei gyfiawnhad i bob strategaeth. (Fanon.1963:74) Y mae eraill yn fwy cymesur-

*'The racism of the colonized is...not based on a belief in the inferiority of the detested group but on the conviction... that the group is truly an aggressor...not an aggressive but defensive racism. Thus it should be relatively easy to appease'.* (Memmi.1974:175)

Tybed? Oherwydd y mae dogn arhosol o afreswm yn dod i berthyn i unrhyw fath o hiliaeth unwaith y cydia; ac o'r herwydd, nid cyfan gwbl amhriodol ydyw gwylio rhagddo, nac ychwaith ymddiheuro drosto yn y cyd destun Cymreig.

(Brooks.2006:159)

Llawer mwy derbyniol, a defnyddiol yn wir, nag unrhyw hiliaeth, yw'r olaf o'r tactegau gwrthsafiadol olgoloneiddiol y gwelir eu mabwysiadu eto yn y profiad Cymreig, sef yr Aildadogi (Redesignation). Distyllir yr hyn a ddigwydd yn y strategaeth Fanonaidd hon yn y disgrifiad canlynol-

*'Liberation, both national and personal, involves putting together another identity, by first recognizing one's 'differance' and then validating it, using it to empower in the struggle against the colonizer'. (Vaughn.1991:15)*

Lle gynt bu nodau ei israddoldeb yn destun dirmyg a chywilydd, yn awr fe'i mawrygir yn fathodynau anrhydedd i herio'r rhai fyn ei ddominyddu. Yng Nghymru, yn ieithyddol eto, o'r 60au ymlaen gwelwyd hepgor cyfenwau Seisnigedig a mabwysiadu ffurfiau Cymreig. (Smyth.1997:255-256) Yn hunaniaethol gyffredinol gwelwyd parodrwydd cynyddol i arddel gyda balchder, yr hyn gynt a labelwyd i ddirfrio; er enghraifft crysau-T 'Valleys Girl'. Yn y byd canu poblogaidd hefyd ceir esiamplau o uniaethu uniongyrchol a phrofiadau eraill a goloneiddiwyd er mwyn gwneud datganiad gwleidyddol; 'Gwlad y Rasta Gwyn' yw'r Gymru Gymraeg i Bryn Fôn. (Fon.1991) Tystia lleisydd y Trwynau Coch, mai-

*'Dim ond nawr rwy'n sylweddoli*

*Fy mod i wedi israddoli'.*

Ond unwaith y gweithir drwy'r foment ffurfiannol honno, wedyn fe ellir seinio'r anogaeth fwy di-feind hyderus-

*'Siglwch bawb gyda'r nigger Cymraeg'. ( Trwynau Coch.1992)*

A yw'r strategaethau gwrthsafiadol hyn yn llwyddiannus? Y mae wrth gwrs math o wrthsefyll nad yw ond nemor yn gohirio diddymiad terfynol. Pesimistaidd iawn er enghraifft yw'r nodyn a geir eto yng ngwaith R. S. Thomas- *'We fought, but were*

*always in retreat*'. (Thomas, R.S.yn Bohata.2004:16) Gwêl, meddir, nid y gwrthsefyll a fydd yn sicrhau goresiad, ond yn hytrach yr erydiad araf a arwain at ddifodiant-

*'A postcolonial reading of Thomas's depiction...conforms to the kinds of histories of colonized peoples encouraged by imperial discourse. The past is glorified but is always a picture of defeat. In this way the conquered people may retain some sort of nationalist pride in former heroism, but the ultimate effect is to strengthen the notion of the inevitability of their defeat*'.

(Bohata.2004:16)

Pa mor barod bynnag yr ysbryd, ymddengys fod goddef, deall, a chanfod ffyrdd o wrthsefyll a goresgyn y grymusterau darostyngol hyn yn galw am ymgysgriad adnoddau a dychymyg nid bychan i fedru llwyddo; fe olyga medd Raymond Williams-

*'the complex creation of images of the past as a way of amending images of the present and finding images of the future*'. (Williams, R.1983:21)



PENNOD TRI.

CANFYDDIADAU CYFREDOL A CHASGLIADAU.

Archwiliwyd gennym felly, yn fras iawn, o fewn y cyfyngiad geiriol gosodedig, rhai o'r meysydd ble y gellir dadlau fod y 'psyche' hunaniaethol Cymreig yn amlygu profion o goloneiddiad yn ei ystyr ehangach. Wrth i ni ddynesu at fentro crynhoad o'n hasesiadau o'n hatebion i'r cwestiwn cychwynnol, priodol yw edrych rhyw gymaint yn awr hefyd ar y trafodaethau cyfoes ac sydd wedi codi o gylch rhai o'r materion hyn. Ystyriwn yr ymarferiad yn fuddiol, ac angenrheidiol; yn gymaint ag mai yn y safleoedd trafod hyn y gwyntyllir, y gwrthodir, neu yr enillir y dadleuon o blaid dadansoddiad tebyg i'r eiddo ni yn y traethawd hwn.

#### 1) PLEDIO'R PERSPECTIF.

Byddai'n werthfawr i ni atgoffa ein hunain unwaith yn rhagor o hanfod ein dadl; seiliedig, fel ac y mae, ar yr ymresymiad gwaelodol ymhlyg yn y damcaniaethol olgoloneiddiol, sef nad yw effeithiau coloneiddiad yn gorffen gydag annibyniaeth, nac ychwaith ymgorfforiad. Erys y canlyniadau, erys y beiusrwydd-

*'Colonialism and imperialism have not paid their score when they withdraw their flags'.* (Fanon.1963:79)

A ellir dweud yn gyfatebol am Gymru, er i'r cyfnod coloneiddiol fod yn un cynharach? Atebir yn y cadarnhaol am i'r dadgoloneiddio honedig ddigwyddodd yn yr unfed ganrif ar bymtheg fod yn anghyflawn, am i hynny ganiatáu i'r aralleiddio barhau, a bod i ni ffrwyth a phrawf amlwg o hynny yng ngwead 'psyche' hunaniaethol y Cymry yn y presennol-

*'It is still going on. Other casualties of Empire can have a post-colonial culture; what can we really claim to have in Wales except a colonial one'?*  
(Gramich.1997:103)

Yn ogystal a thystiolaeth hanesyddol a diwylliannol, fe ellir dadlau fod llenyddiaeth Gymreig, yn y Gymraeg a'r Saesneg, ymron a bod yn 'gwahodd' dehongliadau olgoloneiddiol, a'u bod yn wir yn gyforiog o ieithwedd yr idiom hwnnw. (Bohata, 2004:10) I'r sylwebyddion a gofleidia'r ddealltwriaeth ddiweddaraf ymestynnol o ystyr coloneiddiad, rhagor na'r un mwy caeth empeiraidd-economaidd blaenorol; iddynt hwy ymddengys nad oes dim dadl-

*'To the extent that we are a people, we have been defeated, colonised, penetrated, incorporated'.* (Williams, R.2003:9)

Gwir fod 'ôl goloneiddiaeth' Cymru i Raymond Williams yn debygol o fod yn golygu 'rhywbeth i'w adael ar ôl', rhagor na'r union un ystyr a roddir iddo heddiw. (Bohata.2004:14) Serch hyn, hyd yn oed cyn ymddangosiad yr idiom olgoloneiddiol gyfredol, disgrifiai ef ddiwylliant Cymru fel-

*'a post colonial culture, concious all the time of its real strengths and potentials, longing to be itself... but too much on its back to be able, consistently, to face its own future'.* (Williams, D.yn Williams, R.2003:9)

Ni ellir gwadu realiti'r profiad ehangach hanesyddol Gymreig, o orthrwm Seisnig, a darostyngiad. Nid yw ychwaith yn gweld yr Uno yn rhoi diwedd ar bob un elfen goloneiddiol yn y berthynas honno, i'r gwrthwyneb, oherwydd o 1536 ymlaen-

*'Anglicizing institutions, from boroughs to the grammar schools, were successfully implanted. All these processess can properly be seen as forms of political and cultural colonization'.* (Williams, R.1983:22)

Ategir ein hymresymiad gwaelodol ninnau, na fyn ddadlau dros drefedigaeth draddodiadol gyflawn ar ddaear Cymru wedi 1536, ond dros barhad digon o'r elfennau grymus a roed ar waith mewn cyfnodau blaenorol, i'w gwneud yn

broblematig o hyd, hyd at ond odid y cyfnod presennol, a'r oll sydd yn oblygedig yn hynny.

A yw'r anomili arbennig amseryddol ac sydd yn nodweddu coloneiddiad cyntaf y Cymry yn rhy bell yn ôl i fod bellach felly yn ystyrllon? Nid yn ôl y sylwebyddion. Tra mae'n rhaid cydnabod nad oes yma fodel o ddatblygiad llinellol arferol-

*'The use of postcolonial paradigms...does not in fact rest upon proving that Wales is 'post colonial' in the same way that India or Zimbabwe are 'post colonial'...postcolonialism has the capacity to recognize, structures of influence and subjugation are not necessarily coterminous with formal colonization or decolonization'.* (Bohata.2004:8)

Yn wir, y mae symud i ffwrdd oddi wrth y '*linear model*' yn caniatáu i ni weld yn Nghymru '*devastating examples of cultural imperialism*'.(Bohata.2004:9)

Ymhellach hefyd, enghreifftiau yw y rhain, nas lleihaer eu dilysrwydd na'u difrifoldeb gan unrhyw gyfranogiad gan y Cymry yn eu darostyngiad eu hunain, nac ychwaith mewn ymerodraeth. Yn hytrach

*'Wales is an excellent example of how postcolonial paradigms may be employed...to reveal the...way in which the Welsh have been complicit in their own subjugation and in the colonization of others'.* (Bohata.2004:5)

Does dim rhaid bod anghysondeb, oherwydd bellach-

*'Disqualification on the grounds of complicity...have been questioned by the more sophisticated readings of colonization and imperialism'.*

(Bohata.2000:4)

Fodd bynnag y mae maint y cyfranogiad o hyd yn mynd i fod yn amrywio. Ni fydd cyfranogiad fyth yn llwyr absennol ymhlith y Cenedlaetholwyr, ac ni fydd ychwaith

yn llwyr gyflawn ymhlith y Prydeinwyr, oherwydd Cymru yw Cymru o hyd, nid Lloegr na Phrydain. Nid yw 'cyfranogiad' Cymru cymaint a'r eiddo Lloegr. (Bohata.2004:5) Dadleuon ynglŷn a dymunoldeb a dyfnder y cyfranogiad hwn, yn awr a ffurfia maes y gad, ac a rydd wreichion yn y ddisgwrs drafodaethol bresennol yng Nghymru. Tra mae rhai sylwebyddion yn awyddus iawn i estyn at yr arfau a gynigir gan yr idiom olgoloneiddiol gogyfer a mesur hwnnw, y mae eraill yr un mor eiddgar yn ei hanfodlonrwydd i hynny.

## 2) GWRANDO'R GWRTHWYNEBWYR.

Mewn ymgais i glywed y llais anfoddlon hwnnw ni ellir gwneud yn well na chlustfeinio ar y nodyn croch a chyhyrog a seinir gan yr Athro Dai Smith. Eisoes yn anniddig rai blynyddoedd yn ôl yn sylwi ar- '*Raymond Williams..busily declaring his own deep obsession*'; yn fwy diweddar cydlynwyd ganddo hefyd gyrch tra penderfynol ar dudalennau'r New Welsh Review, mewn ymateb i waith Stephen Knight, 'A Hundered Years of Fiction'. (Smith.1989:35), (Smith.2004:22), (Knight.2004)

Gwinga Smith rhag y defnydd o'r ddamcaniaeth olgoloneiddiol, am ei bod yn gwbl anaddas yn ei olwg ef, gogyfer a dehongli'r profiad Cymreig.(Smith.2004:22) Ceir ebychu ac ocheneidio emosiynol ar ddechrau'r erthygl; peth anghysondeb hefyd-

*'If only he had introduced the theory now and again, for illumination and reflection..'*, eto yn nes ymlaen, *'mild dissent might appear to be a tacit acceptance of the alleged foundations on which a theory of postcolonialism might be allowed to rest'*. (Smith.2004:23,29)

Yn ymwybodol mae'n siŵr o boblogrwydd ei apêl yn yr academi, ac ystod eang cwmpas y 'critique', fe'i gorfodir mewn mannau eraill i ildio tir, a'i faglu i fabwysiadu safbwyntiau amwys. Tra yn cydnabod-

*'Nor does this theory have to be restricted to societies and peoples that were clearly subjugated in almost every sense', eto, gan geisio cribinio'r tir yn ei ôl, 'Yet patently strongest...if it can stand directly in the line of a straight forward and undeniable colonial past. And it is precisely this which is claimed in this book for Wales'. (Smith.2004:23)*

Yn ffodus i Smith, fel y cytuna Bohata yn ei hysgrif ymatebol, fe ymddengys fod y feirniadaeth ar Knight yn yr union fanylyn olaf hwn yn gywir.(Bohata.2005:34) Ond wrth gwrs, nid dyma yn ôl ein dadl ni, na hithau, a ffurfia'r gofyniad fframweithiol angenrheidiol gogyfer a chymhwyso'r ddamcaniaeth olgoloneiddiol yng Nghymru. Serch hyn, cwrso'r sgwarnogod a gyfyd o wal y dryswch hwn a wna Smith o hyd. Deil o hyd at y bras ymresymiad fod gwrthbrofi trefedigaethu traddodiadol rhywfodd yn tanseilio yn foddhaol y ddadl dros barhad unrhyw arlliw o goloneiddiad, neu o brofiad coloneiddiol, ar ôl y cyfnodau penodedig, pan yn amlwg nad oes rhaid i hynny fod yn wir. Mewn ymateb i'r union wendid hwn fe wnaed y pwynt ymhellach yn y drafodaeth-

*'Colonialism is a multiple, ongoing, shape-changing phenomenon...It is not an event, or even a process, and critics from Fanon through to Said and Bhabha have a great deal to say that would discredit Smith's rather basic view'.*

(McGuinness.2005:120)

Amharod yw Smith i adael rhai dadleuon hesb ar eu hol. Unwaith yn rhagor cyfeirir at Hechter, ac fe gymysgir rhwng dwy drafodaeth ac sydd yn eu hanfod yn wahanol

iawn i'w gilydd. Gwrthbrofa Hechter yn dechnegol drachefn, ond gwrthbrofiad yw hwnnw nad sydd yn gwrthbrofi coloneiddiad ehangach yn y profiad Cymreig-

*'To conflate Hechter's theory with the wide field of postcolonialism in this way is unhelpful and suggests an unfamiliarity with this body of work'.*

(Bohata.2005:35)

Y mae rhediad eraill o'i ddadleuon hefyd eto yn gyfarwydd. Maentumir fod rhaniadaeth a rhanbarthiaeth rhywfodd yn bwrw amheuaeth ar ddilysrwydd cysyniadau cryf o genedligrwydd, gan ymron ensynio nas coloneiddiwyd 'gwir genedl' ar unrhyw un adeg beth bynnag. Fodd bynnag nid yw'r ffenomenonau hyn yn gwrthbrofi coloneiddiad o gwbl, yn wir fel arall, y maent yn ffrwyth cwbl nodweddiadol a chydabyddedig ohono. Cyferbynnir yn wrthebol yr hen ddadl rhwng achos dosbarth a chenedl, gan ddod i'r casgliad mai un yn unig ddylai gario'r dydd yn y cyswllt Prydeinig yw dosbarth, fel pe na bai i'r cyd destun hwnnw ei ymffurfiadau cenedlaethol o gwbl-

*'Who is 'colonizing' whom if we take the national salt out of the old power equation'?* (Smith.2004:26)

Yn siŵr hynny, a phwy fyn wadu'r anhydraddoldeb dybryd a ddeillia o orthrymderau eraill mwy cyffredinol ar y ddynoliaeth, eto nid yw dilysrwydd gormes ar un gwastad o reidrwydd yn annilysu un arall- *'Class and nation cannot be circumvented'*. (Williams, D.yn Williams, R.2003:xxviii) Mae'r ddeubeth yn ffurfiannol yn y profiad Cymreig, ond y mae un yn arbennig yn dueddol o gael ei ddiystyru gan-

*'the British left..traditionally opposed to nationalism (whilst blind to its own national biases)'*. (Williams, D.yn Williams, R.2003:xxviii)

Tebyg hefyd yw golygiadau'r haneswyr rheini a wrthwynebant genedlaetholwyr, ond a guddiant eu gwleidyddiaeth dan gochl rhesymoldeb ryddfrydol. Tra yn cydnabod fod golygiadau hanfodol(*essentialist*) ar hunaniaeth wedi eu disodli bellach gan rai mwy deongliadol(*constuctionist*), fe ddylid cofio o hyd-

*'that the Hobsbawmian model is not ideologically neutral. It reveals a fairly crude English left wing bias against all forms of nationalism'.*

(Gramich.1997:104)

Ymhellach felly os oes cyd destun cenedlaethol i brofiad y bobl Gymreig, yna ni all na chyfyd cwestiynau dyfnach hefyd ynglŷn a chyfreithlondeb yr hyn a wnaed iddynt. Parthed yr Uno, eto medd Smith-

*'Legislation only labelled as Acts of Union in the early twentieth century signified a process of legal equalization..which the Welsh gentry welcomed..coherance not achieved within a Welsh medieval polity'.*

(Smith.2004:26)

Beth ellir ei ddweud? Pa ystyr sydd i 'groeso' nas gellir ei fesur, gan leiafrif bach yn awchu am eu hunan les, mewn cyd destun o amddifadiad artiffisial yn y lle cyntaf? Y mae ennill cydsynied llywodraethwyr lleol nid yn wrthddadl, ond yn nodwedd cyffredin iawn mewn coloneiddiad beth bynnag.(Aaron.2005:36) A gaed gwir gydraddoldeb cyfreithiol ym mhob maes? Gan gyfeirio at y cymal iaith noda Norman Davies yn ei lyfr 'The Isles' - *'One could not hope for a better example of colonial cultural policy'*. (Davies, N. yn Aaron.2005:35) Defnyddir parhad yr iaith Gymraeg fel dadl eto i wrthbrofi coloneiddiad, ond onid erydiad araf a gaed, ac nid y ffyniant a fyddai yn dynodi normaleiddiad? Annheg hefyd yw'r gymhariaeth rhwng gwahanol gyfnodau. Yn amlwg nid yr un bendithion y gellir gobeithio eu sicrhau i gymdeithas yn y drydedd ganrif ar ddeg, a'r rhai a estynnir iddi yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Yn



achos Cymru tarfwyd ar dwf naturiol politi yn anghyfreithlon; datblygiad cysefin, am a wyddys, y byddai ei bendraw wedi bod yn wahanol iawn i'r hyn a orfu. (Jones-Pierce.1950:59)

Pa les felly gwrando'r gwrthwynebwyr? Cyhuddir olgoloneiddiaeth eto gan Smith o fabwysiadu '*a reductionist drive*', ond erys y cwestiwn, fframwaith gyfeiriadol pw y yn y diwedd un yw'r un fwyaf llyffetheiriol. (Smith.2004:26) Mae'n glynu wrth ei ddadansoddiad di-syfl, ond di-weledigaeth-

*'If, and in strictly contextual terms, Wales was a colony before 1536, it was no such thing after it'.* (Smith.2004:26)

Beia Hechter eto am gynhyrchu'r ymdeimlad o israddoldeb, heb ddangos unrhyw amgyffrediad mai diwylliannau dominyddol eraill sydd fel arfer yn creu ymwybyddiaethau o'r fath. A yw Smith o'r farn fod y Cymry wedi eu hudo i'r cyflwr hwn yn ddiangen? Os ydyw, y mae ef ei hunan hefyd wedi ei hudo lawn cymaint, oherwydd y mae profiad a 'psyche' yn dweud yn wahanol-

*'You dont live for centuries under the power of others and remain the same'.*  
(Williams, R.2003:7)

Ffaith a olyga fod Smith hefyd yn wrthrych i'r grym dominyddol hwnnw; yn brofiadol o gael ei newid ganddo; ac ef ei hun felly, a'i farn, yn gynnyrch y cyfnewidiad.

Wrth wrando llais y gwrthwynebwyr, yn ogystal a'r cenedlaetholwyr, yr ydym yn clywed eto felly, yn eironig ddigon, llais y rhai a goloneiddiwyd. Nid yw'n annisgwyl fod rhai yn mynd i fod yn anfodlon gweld cymhwyso'r 'critique' olgoloneiddiol yng Nghymru. Tra y bydd rhai wedi cynefino cymaint a'r coloneiddio fel ag i fethu a'i adnabod o gwbl, fe fydd eraill wedyn ar eu gwylidwriaeth rhag i'r ymarferiad

rhywfodd anniddigo'r brodorion a chynyddu gwrthryfel, ond yr hyn ddylid gofio yw-  
'*These are of course colonial positions*'. (Knight.2004:xiv)

Yn amlwg nid oes modd ymddihatru oddi wrth y wedd wleidyddol sydd i'r  
drafodaeth; ond eto, y mae ynnddi yr un pryd, yr addewid am fwy na ffrae-

*'To pretend that postcolonial analysis is anything other than  
politicised..would be absurd. It was born of anti-colonial resistance'*, ond, eto,  
deil y ffaith, *'This makes postcolonial analysis both a usefull vehicle and an  
incisive ctitical tool of nationalism..Postcolonial thought has worked for..pro  
nationalist causes, but equally it has moved beyond this...'*. (Bohata.2005:38)

Gan fod olgoloneiddiaeth yn wir felly yn gallu rhoi 'rhywbeth bach i bawb', fe  
symudwn ninnau yn awr ymlaen yn hyderus i seinio ein nodyn olaf.

### 3) CANFOD CONSENSWS.

Tra yr ymddengys fod rhai sylwebyddion felly yn cyndyn ail adrodd yr un dadleuon,  
yn unig am eu bod wedi eu hadrodd o'r blaen, yn mae cryfder apêl y 'critique'  
newydd yn dal i ledaenu; ei gymhwyster eang gyfryw, fel ac i ganiatáu i'r rhai a'i  
cofleidia gyfle i ail asesu hanes y Cymry yn gyfan. Fe'i gwrthwynebir yr un mor ofer  
ac y gwrthwynebwyd ymddangosiad y dadansoddiadau sosialaidd ganrif yn  
gynharach. (Aaron.2005:32) Camarweiniol fodd bynnag fyddai tybio fod yma  
ymatebion unffurf a pholareiddio llwyr. Llai cibddall, a mwy cadarnhaol, yw  
consesiwn Chris Williams- *'My approach is confessedly eclectic'*. (Williams,  
C.2005:12) Tra yn gweld cyfle i ddechrau trafodaeth ac nid ei diweddu, fe'i ceir yn  
ildio tir allweddol yn rhai o'r union feysydd prawf y bu i ni edrych arnynt;

Amwysedd, Efelychiaeth, Darniadaeth (Fragmentation), a Chyfuniadaeth (Hybridity).  
(Williams, C.2005:13-17) Anodd cynnal y gwrthglawdd lawer yn hwy, wrth i'r  
fffenomenau hyn gael eu hadnabod, a'r profion o'u presenoldeb yng ngwead y bobl  
Gymreig ymgasglu a phentyrru .

Diymwad yw'r dystiolaeth i'r Darnio- '*grotesquely mutilated..crippling deformation*'.  
(Williams,G.A.1982:26) Yn hanesyddol-

*'We live in the interstices of other peoples history..a history to induce  
schizophrenia and...half memories'*. (Williams, G.A.1982:194)

Yn wleidyddol, ieithyddol ac yn gymunedol; fe geir cytundeb o bob tu- '*Wales is a  
singular noun but a plural experience*'. (Smith.1984:168) Yn 'psyche' yr unigolyn  
hefyd-

*'Ynom mae y Clawdd a phob ymwybod'*. (Davies yn Edwards.1990:161)

Fe fydd i'r Ddarniadaeth hon fynegiadau diwylliannol –

*'Fracture and a sense of dislocation have been central to the work of many  
Welsh writers...a lexicon of fragmentation, dislocation, loss, exile, distortion,  
displacement, borders, frontiers, alienation..division and so on'*.

(Bohata.2004:25)

Ymwybyddiaethau ydynt a rydd i ni brawf diamheuol o goloneiddiad tra niweidiol,  
ond a'n geidw er hynny nid yn gyfan gwbl ddiobaith. Tra mae'r rhaniadau a grëwyd  
yn ddwfn-'*a complex of forced and acquired discontinuities: a broken series of  
radical shifts*'. (Williams, R.1983:20) Serch hyn, yn unol a'r ethos olgoloneiddiol; o'u  
deall, fe ellir hefyd efallai ddechrau ar y gwaith o'u herio a'u datrys. Mae Gramich yn  
dwyn i gof ddadl fawr sylfaenol Said am yr angen am ddeuoliaethau gwrthebol i  
barhau'r feddylfryd imperialaidd, ac yn sylwi ar Gymru-

*'North versus South, Welsh versus English, town versus country...such dualism seems to pervade Welsh culture.. the reason that the binary model is so strong in Wales is that it is still a colonized country, subject to imperialist ways of thinking, Yet there is room for dissent and subversion within that colonial scheme'. (Gramich.1997:106)*

Tra mae'r Ddarniadaeth yn ddi-gwestiwn yn tanlinellu rhai o effeithiau mwyaf annymunol coloneiddiad, y mae'r Gyfuniadaeth a ddeillia ohono, yn awr yn caniatáu cyfle i ni geisio cyfannu rhai o'r creithiau. Yn sŵn parhad protestiadau'r puryddion yn seinio eu rhybuddion dolefus apocalyptig -

*'Gwelir y Gymru firain a garwn Yn gorwedd yn gelain;*

*Oni fu ein byd yn fain O'i phriodi a Phrydain'?* (Arfon Williams yn Edwards. 1990:215)

*'Mae rhywbeth yn atgas mewn byw yn gytun*

*Pan fo Cymro o Lundain yn priodi Saesnes o Lyn'. (Gerallt Lloyd Owen yn Edwards.1990:557)*

Eto, er fod y bygythiad o ymdoddiad llwyr yn real, fe geir agoriadau ar gyfer archwilio cyfeiriadau mwy creadigol na'r disgwyl mewn Cyfuniadaeth. Ymhlyg yn y term y mae'r ensyniad o hunaniaeth 'cyflawn' nas gwelir byth ei wireddu, ac hefyd y perygl o gymysgu gyda'i ystyron ym maes bywydeg, ond os y gochelir rhag y ddau ddrwsch posibl hyn, yna fe'i ceir yn gysyniad hyblyg a gwerthfawr. Fe olyga Cyfuniadaeth ymdeimlo ac ymgyfarwyddo yn gyson a chyfnewidiadau; ond drwy hynny oll, fe ddeil yn ddeinameg gynhyrchiol-

*'While 'fracture' and 'self alienation' may evoke ideas of a divided, or broken whole, postcolonial theories of hybridity are in fact much more positive and productive concepts. Hybridity arises from cultural contact and interchange.*

*While for the individual this may be a painful divisive experience, in terms of cultural production the hybrid, liminal space becomes an exciting and fertile arena of cultural production'. (Bohata.2004:25)*

Gall gyfoethogi gweledigaeth y llenor a'r sylwebydd ehangach, megis ac a danlinellir dan gamp eto yng ngweithiau Raymond Williams a ydoedd yn anad neb, ac yn ôl ei gyffes, yn gynnrych y 'ffin' -

*'Williams did always live 'on' the border, in a sort of metaphysical 'border country''. (Michele.1993:27) 'A lived position that mutates into a position from which to speak, beyond the divisions, of the wider, international, relevance of Welsh cultural and political debates'. (Williams, D. yn Williams, R.2003:xxiv)*

Gall greu cyd destun ar gyfer hybu clywed lleisiau lleiafrifol, ynghyd a synergedd mwy cyffredinol yn y gymdeithas Gymreig. Uwchlaw popeth y mae ynddo'r potensial i greu consensws a chyfannu gwleidyddol. Erys rhai problemau anos na'i gilydd-

*'The central continuity is the language..unforgivable..an old score-but must still lead to the most intense and active resistance', eto y mae'r rhagolygon yn rhai addawol, oherwydd fel yn y gorffennol, 'the painful recognition of... problematic identities has not only led to division and confusion but to new and higher forms of consciousness'. (Williams, R.1983)*

Yr ydym wedi bod yma o'r blaen; y sialens fawr yw cael y claf i gymryd ei fffisig, heb iddo dorri'i galon yn y broses o fendio. (Humphreys.2002:140) Rhydd Cyfuniadaeth, a'r ddamcaniaeth olgoloneiddiol yn gyffredinol, o'u cofleidio, hwb neilltuol i ni yn y dasg gerbron-

*'Hybridity opens up exclusive sites of authenticity, offering a permeable but containing space for the making and remaking of Wales'. (Bohata.2004:27)*

Wrth geisio tynnu at y terfyn felly; tra mae'r 'critique' Olgoloneiddiol yn dan ar groen amryw mewn rhai agweddau ar ei gymhwysiad; mewn ffyrdd eraill, wrth ein tywys at y posibiliad o Olgenedligrwydd (Postnationality), y mae yn llawer mwy cymodlon.

Galarnadu a wna rhai o hyd-

*'Aeth y Cymry'n gyn-genedl...Aeth gwahaniaeth yn genedl'*. (Alan Llwyd yn Edwards.1990:553)

Ond, efallai na ddylid brawychu cymaint, o leiaf felly nid at y diffiniad manwl gywir o ystyr yr ymadrodd 'Olgenedligrwydd'. Gwneir ple dros yr hyn sydd yn realistig-

*'Given the extraordinary length of time since Wales was colonized, the notion of a reinstitution of a pre-colonial or 'nativist' Welsh culture seems absurd'*.

(Bohata.2004:15)

Lleddfir ofnau, wrth nesu at gytundeb i gofleidio amrywiad o hunaniaethau. Tra ei bod yn amlwg fod cysyniadau o genedligrwydd wedi goroesi, ac efallai hyd yn oed yn cryfhau; yn eironig efallai, fe ddigwydd hyn ar gefnlen gwanychiad mewn elfennau hunaniaethol mwy ethnig, a chynydd yn y pwyslais ar ddinasyddiaeth sifig gynhwysfawr. Tueddiad ag sydd yn dristwch i rai, ond i eraill y mae yn gyfle cyffrous i ennill drosodd yr amheuwyr a chreu dyfodol plwralistig a fydd yn dderbyniol ac yn ddeniadol i bawb. Gall pawb bellach fod yn Gymry os ydynt yn 'barod i gymryd y cyfrifoldeb am hynny'! (Glyn Jones yn Knight.2004:xviii) Lleiheir ymrafaelio gwleidyddol di-fudd, yn sgil cydsynied fod naratif imperialaeth a chenedlaetholdeb, fel eu gilydd, a'r potensial ynddynt i israddoli ac ymyleiddio grwpiau eraill. Dylid osgoi, *'rheithreg bai'*. (Said yn Williams, C.2005:16) Gwerthfawrogir y consesiynau hyn o du'r cenedlaetholwyr, gan nodi'r tueddiad iachusol tuag at- *'an anti nationalist nationalism'*. (Williams, R.1983:24) Gwobrwyir hwynt a chonsesiynau cyfatebol o'r ochr arall, ac i'r 'critique' olgoloneiddiol-

*'A post national Wales is a more attractive prospect. A post-national Wales would be a partly autonomous Wales..the discourse of national identity and the rhetoric of Welshness..would be decoupled'. (Williams, C.2005:16)*

Eto wrth gwrs ni fyddid yn osgoi'r cysyniad o hyd o rhyw ffurf ar 'genedl' Gymreig-

*'Such a move towards a state of postcoloniality..would be difficult...to accord..without desiring for Wales a greater degree of control over its own affairs'. (Aaron.2005:36)*

Erys y rhaniadau, erys y problemau; ond nid rhai na ellir eu goresgyn. Cyn belled ac yn gwaredir ni oddi wrth 'ffug ymwybyddiaethau', ac y gweithir tuag at ddealltwriaethau real rhwng y cymunedau, yna fe ellir gweld tu draw i chwerwder y drafodaeth bresennol, tuag at unoliaeth pwrpas, ac felly ddyfodol creadwy.

(Williams, D.yn Williams, R.2003:xxiv) O ganfod y consensws hwn, fe geir y cynydd pwylllog creadigol a'n tywys at gyflawniad-

*'Between them..the ideas; influences and actions of both groups...moving this closest, oldest, and in some ways still least understood colony of England towards its effective independence'. (Knight.2004:5)*

DIWEDDGLO.



Dyma Gymru felly ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain. Proffwydwyd un tro na chyfannid fyth mo'i hysgariadau. (Zimmern.1921:29) Profwyd y darogan yn anghywir, yn nodedig felly ym mhleidlais refferendwm 1997, gan enghreifftio'n drawiadol y wireb honno, fod 'Cymru' bob amser yn rhywbeth y mae'r Cymry yn ei 'greu' o'r newydd 'os dymunant hynny'. (Williams, G.A. 1982:200) Eto ni leiha'r un fuddugoliaeth annisgwyl honno, y wedd argyfyngol barhaus sydd i hanes y genedl.

Fodd bynnag, gyda dyfodiad y 'critique' Olgoloneiddiol i'r llwyfan, darparwyd arf tra gwerthfawr i ddechrau ar y gwaith o ymestyn ein dealltwriaeth o'r prosesau a fu'n gwir gyfrifol am ddod a'r Cymry i'r man hwn yn eu profiad. Yn gydamserol a Datganoli, ac nid yn gynamserol, cafwyd yn barod fesur o Ddad- ganoli, (Decentering, Deconstruction), o'r stori Gymreig. Rhoddwyd hwb i weithgarwch gwrthsafiadol oedd eisoes ar waith mewn rhai cyfeiriadau, ond wynebwyd ar gryn brotest o gyfeiriadau eraill. Cyndyn o hyd yw'r gwrthwynebwyr i gydnabod fod yna rhai elfennau cyfatebol i'r profiad coloneiddiol yn dal yn ingol bresennol yn y 'bywyd' Cymreig, ond awgrymwn fod y dystiolaeth bellach yn helaeth a digamsyniol. Cymaint yn wir, nes caniatáu i ni faentumio fod thesis sylfaenol y traethawd hwn yn awr wedi ei brofi. Oherwydd yn ddi-os fe ddengys gwead 'psyche' hunaniaethol y Cymry brawf sylweddol o'u coloneiddiad. Coloneiddiad a ddigwyddodd, yn ei ystyr gwreiddiol, manwl gywir, mewn cyfnod cynharach na'r arferol; ond a ddigwyddodd hefyd, ac a ddal i ddigwydd, yn ei ystyr ehangach diwylliannol a seicolegol, mewn cyfnodau ddiweddarach.

Pam fod hyn oll yn bwysig? Oherwydd dim ond i'r graddau y cydnabyddir natur y coloneiddiad y gellir fyth gobeithio ei wrthweithio. Diweddwyd ein dadl; ond, oes rhinwedd ynddi, dim ond megis dechrau mae'r Dadgoloneiddio.

